

Welsh Hymns **dŵr**  
NONP. volume. CD. track. number of verses  
Sing to the Lord / Canwch i'r Arglwydd no's

**Abba, Father, let me be**

Abba Dad, O gad im fod  
NONP 2.1.1.1

**Alleluia, sing to Jesus!**

Alelwia, mawl i'r Iesu  
NONP 1.1.3.4

**All people that on earth do dwell**

Last verse of the above  
I Dad y trugareddau i gyd. CF 15  
NONP 1. 1. 7. 5

I'r Arglwydd cenwech lafar glod CF75

**As the deer pants for the water**

Fel yr hydd a fref am ddyfroedd. CF 224  
NONP 1. 1. 12. 3

**Away in a manger**

I orwedd mewn preseb  
NONP 1. 9. 14. 3

**Be still, for the presence of the Lord**

Distewch, cans mae presenoldeb Crist  
NONP 1.1.16.3

**Blest are the pure in heart**

Gwyn fyd y galon bur,  
NONP 1.2.1.4

**Breathe on me, breath of God**

Chwyth arnaf, Awel Iôr,  
NONP 1.2.3.4

**Brightest and best of the sons of the**

Loywaf o'r sêr sydd yn britho'r  
NONP 1.9.15.4

**Colours of day**

Lliwiau y dydd sy'n harddu y wawr,  
NONP 1.2.11.3

**For the beauty of the earth**

Am brydferthwch daear lawr,  
NONP 1.3.5.5

**Forty days and forty nights**

Deugain nydd a deugain nos  
NONP 1.8.10.6

**From heaven you came, helpless babe**

O'r nef y daeth, Fab di-nam,  
NONP 1.3.6.4 Caneuon Ffydd 276

**Glory be to Jesus**

Mawl a fo i'r Iesu  
NONP 2.3.7.8

**Go, tell it on the mountain**

Dos, dywed ar y mynydd  
NONP 2.10.4.4

**God forgave my sin in Jesus' name**

Duw faddeuodd im yn enw Crist

**God who made the earth – 5 verses**

Duw a wnaeth y byd,

**Guide me, O thou great Redeemer.**

Arglwydd, arwain drwy'r anialwch  
NONP 1.3.11.3 too fast!

**Hark the glad sound! the Saviour comes,**

O hyfryd sain! mae'r Iesu'n dod  
NONP 1.9.21.4

**Hark, the herald-angels sing**

Clywch lu'r nef yn seinio'n un  
NONP 1.10.1.3

**Here is love, vast as the ocean**

Dyma gariad, fel y moroedd

**Holy, holy, holy. Lord God almighty!**

Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd!  
NONP 1.3.15.4

**I heard the voice of Jesus say**

Mi glywais lais yr Iesu'n dweud  
NONP 2.4.11.3

**I need Thee every hour**

Mae d'eisiau Di bob awr,  
NONP 2.4.14.5

**In the bleak midwinter**

Ganol gaeaf noethlwm  
NONP 1.10.2.5

**It came upon the midnight clear**

Yn nhawel wlad Jwdea dlos  
NONP 1.10.3.5

**Jesus calls us o'er the tumult 126/127**

Crist a'n geilw! dros ystormydd  
NONP 1.4.3.5 / 1.9.20.5

**Jesus Christ is risen today, alleluia!**

Heddiw cododd Crist yn fyw, Halelwia!  
NONP 1.8.13.3

**Jesus is Lord!**

Iesu yw'r Iôr!  
NONP 1.4.4.3

**Jesus shall reign where're the sun**

Yr Iesu a deyrnasa'n grwn  
NONP 1.4.5.5

**Lo! He comes with clouds descending**

Wele'n dyfod ar gymylau  
NONP 1.10.4.4

**Lord Jesus Christ**

O! Iesu Grist,  
NONP 1.4.15.4

**Lord of all hopefulness**

Arglwydd pob gobaiath  
NONP 1.4.16.4

**Lord, who in thy perfect wisdom**

Arglwydd, trefni mewn doethineb

NONP 1.1.3.4

**Lord, thy word abideth**

Duw, dy air a erys  
NONP 1.4.18.6

**Loving Shepherd of thy sheep**

Bugail da y praidd i gyd,  
NONP 1.4.21.4

**Praise to the Lord, the almighty**

Mawl fo i'r Arglwydd  
Lobe den Herren NONP 1. 6. 6. 4

**Morning has broken – Bunessan**

Gwawriodd yr heulwen  
NONP 1.5.3.3

**Now thank we all our God**

Diolchwn oll i Dduw  
NONP 1.5.7.3

**O breath of God, come sweeping through us**

O Ysbryd byw, dylifa drwom  
NONP 1.5.8.4

**O come, all ye faithful**

O deuwch, ffyddloniaid  
NONP 1.10.5.7 / 1.10.6.4

**O come, O come, Emmanuel**

O tyred di, Emanwêl,  
NONP 1.10.7.5

**O God, our help in ages past**

O Dduw, ein cymorth ym mhob oes,  
NONP 1.5.12.6

O Dduw, ein nerth mewn oesoedd gynt CF61

**O Jesus, I have promised**

O Iesu, mi addewais  
NONP 1.5.14.5 / 1.5.15.5 / 2.6.19.5

**O little town of Bethlehem**

O dawel ddinas Bethlehem  
O ddinas fechan Bethlehem  
NONP 1.10.9.4

**O Lord, my God, when I in awesome**

Fy Arglwydd Dduw,  
NONP 1.5.16.4

**O love, that will not let me go**

O gariad na'm gollyngi i  
NONP Volume 1. CD5. Track 17. 4 verses

**O Worship the King, all glorious above**

Datganaf dy glod,  
NONP 1.5.22.6

**Once in Royal David's city**

Draw yn ninas Dafydd Frenin  
NONP 1.10.10.4

**Open our eyes, Lord**

Agor ein llygaid  
NONP 2.7.3.1

**Praise to the Holiest in the height**

Boed moliant pur i'r sanctaidd Iôr

NONP 1.6.4.6 / 1.6.5.6 / 2.7.10.6

**Praise to the Lord, the Almighty**

Mawl fo i'r Arglwydd  
NONP 1.6.6.4 Lobe Den Herren

**Ride on, ride on, in majesty**

Ymlaen, ymlaen, frenhinol Un  
NONP 1.9.2.5

**Rock of ages, cleft for me**

Craig yr oesoedd, cuddia fi  
NONP 1.6.10.4

**Seek ye first the kingdom of God**

Ceisiwch yn gyntaf deyrnas ein Duw  
NONP 2.7.14.3

**Shine, Jesus, shine**

Dad, dy

**Silent night, holy night**

Dawel nos, sanctaidd yw'r nos  
Tawel nos dros y byd,  
NONP 1.10.14.3

**Soldiers of Christ, arise**

Cyfodwch, filwyr Crist,  
NONP 1.6.12.6

**Take my life, and let it be**

Arglwydd, cymer f'einioes i,  
NONP 2.8.4.6

**Tell out, my soul**

O f'enaid, cân,  
NONP 1.6.19.4

**Thine be the glory**

Crist a orchfygodd  
NONP 1.9.7.3

**Thy hand, O God, has guided**

Dy law, O Dduw, fu'n tywys  
NONP 1.7.8.5

**To God be the Glory**

I Dduw bo'r gogoniant  
NONP 1.7.10.3

**When I survey the wondrous cross**

Wrth edrych, Iesu, ar dy Groes  
NONP 1.9.9.4

**While shepherds watched**

Pan oedd bugeiliaid  
NONP 1.10.20.6

**Spirit of the living God**

Ysbryd y tragwyddol Dduw  
NONP 1.6.13.2

No usable English equivalent

**Bywha dy waith tune St Clement**

often to The Day Thou Gavest  
NONP 1.7.1.5

**Cariad Iesu Grist – Welsh only**  
**Cof am y cyfiawn Iesu CF 500**  
**Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion**  
**Ar gyfer heddiw'r bore – poor version**  
For the sake of this very morning  
**Cyfodi wnaeth Tywysog hedd,**  
**Dowch, blant bychain,**  
**Dros Gymru'n gwlad,**  
**Duw, teyrnasa ar y ddaear**  
**Dyrchafodd Crist o waelod bedd**  
tune St Peter – How sweet the name of  
NONP 1.3.18.6 – a resurrection hymn  
**Felly carodd Duw wrthrychau**  
to the tune of O the deep, deep love  
NONP 2.9.20.4. tune – Ebeneser  
**Ganwyd Iesu'n nyddiau Herod**  
CF 477. ton Ganwyd Iesu  
**Gorfoleddwn, Iesu mawr, Easter hymn**  
To the tune of Take my life and let it be  
NONP 2.8.4.6  
**Grist bendigedig,**  
Child in the manger – Bunessan  
NONP 1.5.3.3  
**Hyfryd eiriau'r Iesu – Pinner**  
**Hwn ydyw'r dydd y cododd Crist**  
Tune Nativity Come let us join our  
NONP 1.2.13.4 – a resurrection hymn  
**Iesu tirion, gwêl yn awr**  
**Mawr ddyled arnom sydd**  
Tune of Ye holy angels bright  
NONP 1.7.18.4  
**Mi glywaf dyner lais**  
**Molwn di, O Dduw ein tadau,**  
**Nid wy'n gofyn bywyd moethus**  
**O Arglwydd, dysg im chwilio**  
**O deued pob Cristion**  
**O disgyn, Ysbryd Glân**  
An invocation of the Holy Spirit  
NONP 1.7.14.7. tune Quam dilecta  
**O Dduw yr holl genhedloedd**  
tune of The Church's One Foundation  
NONP 1.6.20.4 Aurelia  
A prayer for God to bless Wales  
**Orchfygwr angau, henffych well! CF 544**  
An Easter hymn  
Stracathro. NONP 2. 6. 11. 4 needs 5 vv  
**Pob peth, ymhell ac agos**  
NONP 1.7.15.3 equivalent to, to the tune of  
We plough the fields and scatter  
**Pwy wnaeth y sêr uwch ben,**  
**Suai'r gwynt, suai'r gwynt**  
CF 471. ton Hwiangerdd Mair  
**Ti yr hwn sy'n fôr o gariad**  
CF 657 NONP 1.7.16.3  
suitable for a wedding

**Ysbryd Sanctaid, dyro'r golau**  
An invocation of the Holy Spirit  
Tune Stuttgart NONP 2.2.11.5

## Welsh Hymns

**Abba Dad, O gad im fod**  
Abba, Father, let me be  
NONO 2.1.1.1  
**Agor ein llygaid**  
Open our eyes, Lord  
NONP 2.7.3.1  
**Alelwia, mawl i'r Iesu**  
Alleluia, sing to Jesus!  
NONP 1.1.3.4  
**Am brydferthwch daear lawr,**  
For the beauty of the earth  
NONP 1.3.5.5  
**Arglwydd, arwain drwy'r anialwch**  
Guide me, O thou great Redeemer.  
NONP 1.3.11.3 too fast!  
**Arglwydd, cymer f'einioes i,**  
Take my life, and let it be  
NONP 2.8.4.6  
**Arglwydd pob gobaith**  
Lord of all hopefulness  
NONP 1.4.16.4  
**Arglwydd, trefni mewn doethineb**  
Lord, who in thy perfect wisdom  
NONP 1.1.3.4  
**Ar gyfer heddiw'r bore**  
For the sake of this very morning  
**Boed moliant pur i'r sanctaidd Iôr**  
Praise to the Holiest in the height  
NONP 1.6.4.6 / 1.6.5.6 / 2.7.10.6  
**Bugail da y praidd i gyd,**  
Loving Shepherd of thy sheep  
NONP 1.4.21.4  
**Bywha dy waith** tune St Clement  
often to The Day Thou Gavest  
NONP 1.7.1.5  
**Cariad Iesu Grist,**  
**Ceisiwch yn gyntaf deyrnas ein Duw**  
Seek ye first the kingdom of God  
NONP 2.7.14.3  
**Clywch lu'r nef yn seinio'n un**  
Hark, the herald-angels sing  
NONP 1.10.1.3  
**Craig yr oesoedd, cuddia fi**  
Rock of ages, cleft for me  
NONP 1.6.10.4  
**Crist a orchfygodd**

## dŵr

Thine be the glory NONP 1.9.7.3  
**Crist a'n geilw! dros ystumydd**  
Jesus calls us o'er the tumult 126/127  
NONP 1.4.3.5 / 1.9.20.5  
**Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion**  
**Chwyth arnaf, Awel Iôr,**  
Breathe on me, breath of God  
NONP 1.2.3.4  
**Cyfodi wnaeth Tywysog hedd,**  
**Cyfodwch, filwyr Crist,**  
Soldiers of Christ, arise  
NONP 1.6.12.6  
**Datganaf dy glod,**  
O Worship the King, all glorious above  
NONP 1.5.22.6  
**Dawel nos, sanctaidd yw'r nos**  
Silent night, holy night  
NONP 1.10.14.3  
**Deugain nydd a deugain nos**  
Forty days and forty nights  
NONP 1.8.10.6  
**Diolchwn oll i Dduw**  
Now thank we all our God  
NONP 1.5.7.3  
**Distewch, cans mae presenoldeb Crist**  
Be still, for the presence of the Lord  
NONP 1.1.16.3  
**Dos, dywed ar y mynydd**  
to the tune of Go, tell it on the mountain  
NONP 2.10.4.4  
**Dowch, blant bychain,**  
**Draw yn ninas Dafydd Frenin**  
Once in Royal David's city  
NONP 1.10.10.4  
**Dros Gymru'n gwlad,**  
**Duw a wnaeth y byd,**  
God who made the earth – 5 verses  
**Duw, dy air a erys**  
Lord, thy word abideth  
NONP 1.4.18.6  
**Duw faddeuodd im yn enw Crist**  
God forgave my sin in Jesus' name  
**Duw, teyrnasa ar y ddaear**  
**Dy law, O Dduw, fu'n tywys**  
Thy hand, O God, has guided  
NONP 1.7.8.5  
**Dyma gariad, fel y moroedd**  
Here is love, vast as the ocean  
**Dyrchafodd Crist o waelod bedd**  
tune St Peter – How sweet the name of  
NONP 1.3.18.6  
**Felly carodd Duw wrthrychau**

to the tune of O the deep, deep love  
NONP 2.9.20.4 Ebeneser  
**Fy Arglwydd Dduw,**  
O Lord, my God, when I in awesome  
NONP 1.5.16.4  
**Ganol gaeaf noethlwm**  
In the bleak midwinter  
NONP 1.10.2.5  
**Gorfoleddwn, Iesu mawr,** Easter hymn  
To the tune of Take my life and let it be  
NONP 2.8.4.6  
**Grist bendigedig,**  
Child in the manger – Bunessan  
NONP 1.5.3.3  
**Gwawriodd yr heulwen**  
Morning has broken – Bunessan  
NONP 1.5.3.3  
**Gwyn fyd y galon bur,**  
Blest are the pure in heart  
NONP 1.2.1.4  
**Heddiw cododd Crist yn fyw, Halelwia!**  
Jesus Christ is risen today, alleluia!  
NONP 1.8.13.3  
**Hwn ydyw'r dydd y cododd Crist**  
Tune Nativity Come let us join our  
NONP 1.2.13.4  
**I Dduw bo'r gogoniant**  
To God be the Glory  
NONP 1.7.10.3  
**I orwedd mewn preseb**  
Away in a manger  
NONP 1. 9. 14. 3  
**Iesu tirion, gwêl yn awr**  
**Iesu yw'r Iôr!**  
Jesus is Lord!  
NONP 1.4.4.3  
**I'r Arglwydd cenwch lafar glod CF75**  
All people that on earth do dwell  
Last verses of the above  
I Dad y trugareddau i gyd. CF 15  
NONP 1. 1. 7. 5  
**Loywaf o'r sêr sydd yn britho'r**  
Brightest and best of the sons of the  
NONP 1.9.15.4  
**Lliwiau y dydd sy'n harddu y wawr,**  
Colours of day  
NONP 1.2.11.3  
**Mae d'eisiau Di bob awr,**  
I need Thee every hour  
NONP 2.4.14.5  
**Mawl a fo i'r Iesu**  
Glory be to Jesus

NONP 2.3.7.8

**Mawl fo i'r Arglwydd**

Praise to the Lord, the Almighty

NONP 1.6.6.4 Lobe Den Herren

**Mawr ddyled arnom sydd**

Tune of Ye holy angels bright

NONP 1.7.18.4

**Mi glywaf dyner lais**

**Mi glywais lais yr Iesu'n dweud \***

I heard the voice of Jesus say

NONP 2.4.11.3

**Molwn di, O Dduw ein tadau,**

**Nid wy'n gofyn bywyd moethus**

**O dawel ddinas Bethlehem**

O little town of Bethlehem

NONP 1.10.9.4

**O deued pob Cristion**

**O deuwch, ffyddloniaid**

O come, all ye faithful

NONP 1.10.5.7 / 1.10.6.4

**O disgyn, Ysbryd Glân**

An invocation of the Holy Spirit

NONP 1.7.14.7

**O ddinas fechan Bethlehem x 2 !**

O little town of Bethlehem

NONP 1.10.9.4

**O Dduw, ein cymorth ym mhob oes,**

O God, our help in ages past

NONP 1.5.12.6

**O Dduw, ein nerth mewn oesoedd gynt CF61**

O God, our help in ages past \*

NONP 1.5.12.6

**O Dduw yr holl genhedloedd**

tune of The Church's One Foundation

NONP 1.6.20.4 Aurelia

A prayer for God to bless Wales

**O fenaïd, cân,**

Tell out, my soul

NONP 1.6.19.4

**O gariad na'm gollyngi i**

O love, that will not let me go

NONP Volume 1. CD5. Track 17. 4 verses

**O hyfryd sain! mae'r Iesu'n dod**

Hark the glad sound! the Saviour comes,

NONP 1.9.21.4

**O! Iesu Grist,**

Lord Jesus Christ

NONP 1.4.15.4

**O Iesu, mi addewais**

O Jesus, I have promised

NONP 1.5.14.5 / 1.5.15.5 / 2.6.19.5

**O llefara, addfwyn Iesu**

**O'r nef y daeth, Fab di-nam,**

From heaven you came, helpless babe

NONP 1.3.6.4 Caneuon Ffydd 276

**O tyred di, Emanwël,**

O come, O come, Emmanuel

NONP 1.10.7.5

**O Ysbryd byw, dylifa drwom**

O breath of God, come sweeping through us

NONP 1.5.8.4

**Pan oedd bugeiliaid**

While shepherds watched

NONP 1.10.20.6

**Pwy wnaeth y sêr uwch ben,**

**Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd!**

Holy, holy, holy. Lord God almighty!

NONP 1.3.15.4

**Suai'r gwynt, suai'r gwynt**

CF 471. ton Hwiangerdd Mair

**Tawel nos dros y byd,**

Silent night, holy night

NONP 1.10.14.3

**Tyrd atom ni, O Grëwr pob goleuni**

**Wele'n dyfod ar gymylau**

Lo! He comes with clouds descending

NONP 1.10.4.4

**Wrth edrych, Iesu, ar dy Groes**

When I survey the wondrous cross

NONP 1.9.9.4

**Ymlaen, ymlaen, frenhinol Un**

Ride on, ride on, in majesty

NONP 1.9.2.5

**Yn nhawel wlad Jwdea dlos**

It came upon the midnight clear

NONP 1.10.3.5

**Yr Iesu a deyrnasa'n grwn**

Jesus shall reign where're the sun

NONP 1.4.5.5

**Ysbryd Sanctaïd, dyro'r golau**

An invocation of the Holy Spirit

Tune Stuttgart NONP 2.2.11.5

**Ysbryd y tragwyddol Dduw**

Spirit of the living God NONP 1.6.13.2

Molwn di, O Dduw ein tadau (Canwch l'r

Arglwydd 252), Arglwydd, trefni mewn

doethineb (145 with English version 144),

Dear Lord and heavenly Father (19), Dros

Gymru'n gwlad (Emynau'r LLan

216), these all to well known singable tunes.

(Abba, Father, let me be)

NONP Volume 2. CD 1. Track 1. 1 verse

**Abba, Dad, O gad im fod**

**fyth yn eiddot ti;**

**boed f'ewyllys i byth mwy**

**fel yr eiddot ti:**

**na foed oerni dan fy mron,**

**paid â'm gollwng i;**

**Abba, Dad, O gad im fod**

**fyth yn eiddot ti.**

(Open our eyes, Lord)

NONP Volume 2. CD 7. Track 3. verses 1

**Agor ein llygaid**

**i weled yr Iesu**

**i 'mestyn a'i gyffwrdd**

**a dweud i ni ei garu.**

**Agor ein clustiau**

**a dysg i ni wrando,**

**Agor ein calon**

**i 'nabod yr Iesu.**

**Open our eyes, Lord,**

**we want to see Jesus,**

**to reach out and touch him**

**and say that we love him;**

**open our ears, Lord,**

**and help us to listen:**

**O open our eyes, Lord,**

**we want to see Jesus!**

NONP Volume 1. CD 7. Track 6. 4 verses

**Agorodd Iesu'n wir**

**y ffordd i'r nefol dir –**

**mae heddiw'n rhydd:**

**maddeuant yn ei Waed**

**a chymod llawn a gaed:**

**pob gelyn roir dan draed**

**gwrolion ffydd.**

**Mae heddiw afon gras**

**yn llifo i'r anial cras**

**yn ffrydiau pur:**

**doed aflan euog rai,**

**sydd am gael maddau'u bai,**

**i'r dyfroedd sydd heb drai –**

**ei farwol gur.**

**Ei Angau ar y Pren,**

**agorodd ddrysau'r nen –**

**Fe'n tyn o'n gwae;**

**O rhoddwn arno'n bryd,**

**a deuwn ato i gyd,**

**nes cyrraedd uwch y byd,**

**i'r man lle mae.**

Alleluia, sing to Jesus!

NONP Volume 1. CD 1. Track 3. 4 verses

**Alelwia, mawl i'r Iesu**

**ar orseddfainc nef y nef.**

**Alelwia, buddugoliaeth**

**byth sy'n eiddo iddo ef.**

**Clywch ganiadau hyfryd Sion**

**yn taranu megis lli:**

**allan o'r holl wledydd, Iesu**

**trwy ei Waed a'n prynodd ni.**

**Alelwia, ni'n gadawyd**

**yn amddifaid ar y llawr.**

**Alelwia, ffydd a'i cenfydd**

**yn y canol yma'n awr.**

**Er i'r cwmwl ar Olewydd**

**guddio'i annwyl wedd a'i bryd,**

**byth y cofiwn 'Wele'r ydwyf**

**gyda chwi hyd ddiwedd byd.'**

**Alelwia, Bara'r Engyl,**

**ymborth nefol yma sydd.**

**Alelwia, ffy y truant**

**atat ti o ddydd i ddydd.**

**Eiriol drosof, O fy Mhrynwr,**

**cyfaill pechaduriaid, clyw,**

**lle y daw dros fôr o risial**

**bêr alawon meibion Duw.**

**Alelwia, Iôr tragwyddol,**

**nefoedd yw d'orseddfainc di.**

**Alelwia, Fab y Forwyn,**

mainc dy draed yw'n daear ni.  
Fry ein Harchoffeiriad ydwyt,  
brawd i ni yng ngwlad yr heddi;  
yma'n Aberth ac Offeiriad  
yn y sanctaidd Ddiolch-wedd.

---

For the beauty of the earth  
NONP Volume 1. CD 3. Track 5. 5 verses

Am brydferthwch daear lawr,  
am brydferthwch wybren fry,  
am y cariad rhad bob awr  
a amlygir ar bob tu:

*Crist ein Duw, cyflwynwn ni  
Hwn ein haberth mawl i ti.*

Am brydferthwch pêr parhaus,  
sydd o'n hamgylch ddydd a nos:  
bryn a phant a blodau'r maes,  
haul a lloer a seren dlos:

*Crist ein Duw, cyflwynwn ni  
Hwn ein haberth mawl i ti.*

Am lawenydd teulu cu,  
brawd a chwaer, a mam a thad,  
ceraint yma, seraint fry,  
am bob meddwl mwyn a mad:

*Crist ein Duw, cyflwynwn ni  
Hwn ein haberth mawl i ti.*

Am dy roddion perffaith, hael,  
roist i ddyn mewn gwlad a thref,  
am rasmusau gwiw i'r gwael,  
blodau daear, blagur nef:

*Crist ein Duw, cyflwynwn ni  
Hwn ein haberth mawl i ti.*

Am yr Eglwys sydd o hyd  
yn gweddio arnat ti.

Gan offrymu, trwy'r holl fyd,  
hwn ei Haberth sanctaidd hi:

*Crist ein Duw, cyflwynwn ni  
Hwn ein haberth mawl i ti.*

The above five verses are broadly  
equivalent to the English version.

Am Ferthyron, gannaid lu,  
am y Proffwyd gwir, a'r Sant,  
am y dewr Gyffeswyr fry,  
am wefesau didwyll plant:

*Crist ein Duw, cyflwynwn ni  
Hwn ein haberth mawl i ti.*

Am Wryfon glân eu gwedd,  
am y wylaidd Forwyn Fam,  
ac amdanat, Frenin heddi,  
Iesu, Offrwm pur di-nam:

*Crist ein Duw, cyflwynwn ni  
Hwn ein haberth mawl i ti.*

Guide me, O thou great Redeemer.  
NONP Volume 1. CD 3. Track 11. verses 3.

Arglwydd, arwain drwy'r anialwch  
fi, bererin gwael ei wedd,  
nad oes ynof nerth na bywyd,  
fel yn gorwedd yn y bedd:  
hollalluog, hollalluog,  
ydyw'r Un a'm cwyd i'r lan.

Agor y ffynhonnau melys  
sydd yn tarddu o'r graig i maes;  
'r hyd yr anial mawr canlyned  
afon iachawdwriaeth gras;  
rho im hynny, rho im hynny:  
dim i mi ond dy fwynhau.

Colofn dân rho'r nos i'm harwain,  
a rho golofn niwl y dydd;  
dal fi pan fwy'n teithio'r manau  
geirwon yn fy ffordd y sydd;  
rho im fanna, rho im fanna,  
fel na bwyf yn llwfwrhau.

Ymddiriedaf yn dy allu,  
mawr yw'r gwaith a wnest erioed:  
ti gest angau, ti gest uffern,  
ti gest Satan dan dy droed:  
pen Calfaria, pen Calfaria,  
nac aed hwnnw byth o'm cof.

*First four verses in Caneuon Ffydd  
Pan yn troedio glan Iorddonen*

par i'm hofnau suddo i gyd,  
dwg fi drwy y tonnau geirwon,  
draw i Ganaan – gartref clyd:  
mawl diderfyn, mawl diderfyn,  
fydd i'th enw byth am hyn.

---

Take my life, and let it be  
NONP Volume 2. CD 8. Track 4. 6 verses

Arglwydd, cymer f'eiioes i,  
i'w chysegro'n llwyr i ti;  
cymer fy munudau oll  
i'th glodfori yn ddi-goll.

Cymer, Iôr, fy nwylo i,  
gweithgar fyddont hwy i ti;  
cymer di fy nhraed i fod  
byth yn rhodio er dy glod.

Cymer di fy llais yn awr,  
caned fawl i'm Ceidwad mawr;  
a'm gwefusau, Arglwydd da,  
yn genhadon drosot gwna.

O bob cyfoeth roddaist im,  
Arglwydd, nid ataliwn ddim;  
cymer fy nghyneddffau'n rhodd,  
byth i'w harfer wrth dy fodd.

Fy ewyllys cymer di,  
nid yw mwy yr eiddof i;  
cymer di fy nghalon hon,  
gwna dy orsedd dan fy mron.

Cymer di fy serch a roed  
yma'n drysor wrth dy droed;  
cymer fi yn llwyr, O Dduw,  
er dy fwyn y mynnwn fyw.

---

Lord of all hopefulness  
NONP Volume 1. CD 4. Track 16. 4 verses

Arglwydd pob gobaith  
ac Arglwydd pob hoen,  
na threchwyd dy ffydd  
gan na gofal na phoen,  
bydd yma pan godwn,

a dyro yn rhydd  
lawenydd i'n calon  
ar doriad y dydd.

Arglwydd pob hyder,  
lafurwr mor daer,  
dy ddwylo fu gryfion  
wrth offer y saer,  
bydd yma pan weithiwn,  
a dyro yn rhydd  
dy nerth i'n calonnau  
ar ganol y dydd.

Arglwydd mwynedd-dra  
ac Arglwydd ein cred,  
a'th ddwylo a'th freichiau  
mewn croeso ar led,  
bydd yma i'n derbyn,  
a dyro yn rhydd  
dy gariad i'n calon  
cyn diwedd y dydd.

Arglwydd tiriondeb,  
dawelwr y don,  
dy lais ddaw â'r bal  
pan fo brawd dan ein bron,  
bydd yma pan hunwn,  
a dyro yn rhydd  
dangnefedd i'n calon  
ar derfyn y dydd.

---

NONP Volume 1. CD 4. Track 20. 4 verses  
or Volume 1. CD 1. Track 3. 4 verses

Lord, who in thy perfect wisdom  
Blaenwern / Hyfrydol

Arglwydd, trefni mewn doethineb  
ein tymhorau is y rhod;  
daw i ben dy fythol arfaeth  
er pob newid sydd yn bod:  
Ti ddewisaist Wlad y Bryniau,  
ddyddiau tywyll a di-wawr,  
i egluro dy fwriadau  
er dy glod a'th Enw mawr.

Hyd ein glannau pell a olchir  
o'r gorllewin gan y lli

yr anfonaist ti o’th gariad  
sôn am Groesbren Calfari;  
dros yr Eglwys Lân Gatholig  
collwyd chwys a gwaed dy blant,  
a disgleirio’n rhôl dy arwyr  
y mae enw Dewi Sant.

Parchwn, Arglwydd, goffadwriaeth  
pawb o seintiau Cymru wen,  
yr esgobion a’r offeiriaid  
a’r Merthyri hwnt i’r llen:  
Dewi, Dyfrig, Deiniol, Teilo –  
dewr y safent tros y gwir,  
bu eu pader, bu eu penyd  
yn sancteiddio erwau’n tir.

Mae dy fwriad yn goroesi  
holl ddamweiniau daear lawr;  
mae dy Eglwys Lân yn aros  
byth yn dyst o’th gariad mawr:  
dyro nerth a gweledigaeth,  
Arglwydd, yn dy waith o hyd,  
a’th ewyllys di a wneler  
yn yr Eglwys a’r holl fyd.

Lord, who in thy perfect wisdom  
times and seasons dost arrange –  
working out thy changeless purpose  
in a world of ceaseless change;  
Thou didst form our ancient nation  
in remote barbaric days,  
to unfold in it thy purpose  
to thy glory and thy praise.

To our shores remote, benighted,  
washed by distant western waves,  
tidings in thy love Thou sentest,  
tidings of the Cross that saves.  
Men of courage strove and suffered  
here thy holy Church to plant;  
glorious in the roll of heroes  
shines the name of Dewi Sant.

Lord, we hold in veneration  
all the saints our land has known,  
bishops, priests, confessors, martyrs,  
standing now around thy throne;

Dewi, Dyfrig, Deiniol, Teilo –  
all the gallant, saintly band,  
who of old, by prayer and labour,  
hallowed all our fatherland.

Still thy ancient purpose standeth  
every change and chance above;  
still thy ancient Church remaineth –  
witness to thy changeless love.  
Vision, grant us, Lord, and courage  
to fulfil thy work begun;  
in the Church and in the nation,  
Lord of lords, Thy will be done.

---

Ar gyfer heddiw'r bore  
’n faban bach, faban bach,  
y ganwyd gwreiddyn Jesse  
’n faban bach;  
y Cadarn ddaeth o Bosra,  
y Deddfwr gynt ar Seina,  
yr Iawn gaed ar Galfaria  
’n faban bach, faban bach,  
yn sugno bron Maria  
’n faban bach.

Caed bywiol ddŵr Eseciel  
ar lin Mair, ar lin Mair,  
a gwir Feseia Daniel  
ar lin Mair, ar lin Mair;  
caed bachgen doeth Eseia,  
’r addewid roed i Adda,  
yr Alfa a'r Omega  
ar lin Mair, ar lin Mair;  
mewn côr ym Meth'lem Jiwda,  
ar lin Mair.

Diosgodd Crist o'i goron,  
o'i wirfodd, o'i wirfodd,  
er mwyn coroni Seion,  
o'i wirfodd;  
i blygu'i ben dihalog  
o dan y goron ddreiniog  
i ddiodef dirmyg llidiog,  
o'i wirfodd, o'i wirfodd,  
er codi pen yr euog,  
o'i wirfodd.

Am hyn, bechadur, bryisia,  
fel yr wyt, fel yr wyt,

i 'mofyn am dy Noddfa,  
fel yr wyt  
i ti'r agorwyd ffynnon  
a ylch dy glwyfau duon  
fel eira gwyn yn Salmon,  
fel yr wyt, fel yr wyt,  
gan hynny, tyrd yn brydlon,  
fel yr wyt.

For the sake of this very morning  
As a little baby, a little baby  
Was born the root of Jesse  
As a little baby;  
The Strong one who came from Bosra,  
The Lawmaker of old on Sinai,  
The Redemption to be had on Calvary  
As a little baby, a little Baby,  
Suckling the breast of Mary,  
As a little Baby.

The life-giving water of Ezekiel is found  
On Mary's knee, on Mary's knee,  
And the true Messiah of Daniel  
On Mary's knee;  
Here is the wise boychild of Isaiah,  
The promise made to Adam,  
The Alpha and Omega  
On Mary's knee, on Mary's knee;  
In the stall in Beth'lem of Judah,  
On Mary's knee.

Christ took off his crown,  
Of his free-will, of his free-will,  
In order to crown Zion,  
Of his free-will;  
To bow his undefiled head  
Under the thorny crown  
To suffer enraged derision,  
Of his free-will, of his free-will,  
To raise the head of the guilty,  
Of his free-will.

For this, sinner, hurry,  
As thou art, as thou art,  
To ask for his Sanctuary,  
As thou art;  
For thee the well was opened  
Which washes thy black wounds  
Like the white snow on Salmon,  
As thou art, as thou art,  
For that, come promptly,

As thou art.

(Tr. 2008 Richard B Gillion)

Loving Shepherd of thy sheep  
NONP Volume 1. CD 4. Track 21. verses 4  
**Bugail da y praidd i gyd,  
cadw di dy ŵyn o hyd;  
ni fydd inni friw na braw,  
ni'n gollyngi byth o’th law.**

**Bugail da, fe roddaist ti,  
do, dy einioes drosom ni:  
dyry’r dwylo dan eu craith  
fendith inni ar y daith.**

**Beunydd y clodforwn di,  
gwneud d’ewyllys hoffwn ni;  
fel y sawl sy’n wyn eu byd –  
dedwydd yn dy gariad drud.**

**Bugail da, byth gyda ni,  
dysg dy ŵyn i’th wrando di,  
cadw ni rhag crwydro ’mhell  
oddi wrth y llwybrau gwell.**

**Ti ddilynwn ni o hyd,  
awn yn ôl dy draed drwy’r byd,  
nes cael gweld dy hyfryd wedd,  
fugail da, yng ngwlad yr hedd.**

---

Praise to the Holiest in the height  
NONP Volume 2. CD 7. Track 10. verses 6 Somervell  
Volume 1. CD 6. Track 5. verses 6 Gerontius  
Volume 1. CD 6. Track 4. verses 6 Richmond

**Boed moliant pur i’r sanctaidd Iôr  
yn entrych euraid nef,  
clodfored dyfnder tir a môr  
ei ryfedd doniau ef.**

**O hynod gariad – doeth a phur –  
yn wyneb pechod dyn!  
Daeth Adda’r Ail i oddef cur,  
gan ddwyn y baich ei hun.**

**Yn Eden clwyfwyd natur dyn,  
a dirfawr fu y boen,  
ond Iawn a wnaed gan Dduw ei hun  
trwy Waed y Dwyfol Oen.**

Cawn yma rodd sydd uwch na gras,  
cawn wyddfod Duw ei hun!  
Derbyniwn sypiau peraidd flas  
o hanfod Tri yn Un.

Yn nhrymder hwyrnos yn yr ardd,  
ac ing y farwol Groes,  
fe ddysgodd dyn egwyddor hardd,  
a gwerth angheuol loes.

Boed moliant pur i'r sanctaidd Iôr  
yn entrych euraid nef,  
clodfored dyfnder tir a môr  
ei ryfedd doniau ef.

????????????????

ni:  
dyry'r dwylo dan eu craith  
fendith inni ar y daith.

[Beunydd y clodforwn di,  
gwneud d'ewyllys hoffwn ni;  
fel y sawl sy'n wyn eu byd –  
dedwydd yn dy gariad drud.]

Bugail da, byth gyda ni,  
dysg dy wŷn i'th wrando di,  
cadw ni rhag erwydro 'mhell  
oddi wrth y llwybrau gwell.

Ti ddilynwn ni o hyd,  
awn yn ôl dy draed drwy'r byd,  
nes cael gweld dy hyfryd wedd,  
fugail da, yng ngwlad yr hedd.

tune St Clement – The Day Thou Gavest  
NONP 1.7.1.5

Bywha dy waith, O Arglwydd mawr,  
dros holl derfynau'r ddaear lawr  
drwy roi tywalltiad nerthol iawn  
o'r Ysbryd Glân a'i ddwyfol ddawn.

Bywha dy waith o fewn ein tir,  
arddeliad mawr fo ar y gwir;  
mewn nerth y bo'r Efyngyl lawn,

er iachawdwriaeth llawer iawn.

Bywha dy waith o fewn dy dŷ,  
a gwna dy weision oll yn hy:  
gwisg gwynt â nerth yr Ysbryd Glân,  
a'th air o'u mewn fo megis tân.

Bywha dy waith, O Arglwydd mawr,  
yn ein calonnau ninnau nawr,  
er marwhau pob pechod cas,  
a chynnydd i bob nefol ras.

Cariad Iesu Grist,  
cariad Duw yw ef:  
cariad mwya'r byd,  
cariad mwya'r nef.

Gobaith plant pob oes,  
gobaith dynol-ryw,  
gobaith daer a nef  
ydyw cariad Duw.

Bythol gariad yw  
at y gwael a'r gwan,  
dilyn cariad Duw  
wnelom ymhob man.

Molwn gariad Duw  
ar bob cam o'r daith,  
canu iddo ef  
fydd yn hyfryd waith.

Seek ye first the kingdom of God  
NONP Volume 2. CD 7. Track 14. verses 3  
Ceisiwch yn gyntaf deyrnas ein Duw,  
a'i gyfiawnder ef,  
a'r pethau hyn yn ychwaneg i chwi,  
Haleliwia, Haleliwia.

*Haleliwia, Haleliwia,  
Haleliwia, Haleliwia, Haleliwia.*

Nid ar fara'n unig bydd byw dyn,  
ond ar bob rhyw air  
ddaw o enau Duw ei hun,  
Haleliwia, Haleliwia.

Gofynnwch ac fe roddir i chwi,  
ceisiwch ac fe gewch;  
curwch ac fe agorir i chwi,  
Haleliwia, Haleliwia.

Hark, the herald-angel sing  
NONP Volume 1. CD 10. Track 1. 3 verses  
Clywch lu'r nef yn seinio'n un,  
henffych eni Ceidwad dyn:  
heddwch sydd rhwng nef a llawr,  
Duw a dyn sy'n un yn awr.  
Dewch, bob cenedl is y rhod,  
unwch â'r angylaidd glod,  
bloeddiwch oll â llawen drem,  
ganwyd Crist ym Methlehem:  
*Clywch lu'r nef yn seinio'n un,  
henffych eni Ceidwad dyn!*

Crist, Tad tragwyddoldeb yw,  
a disgleirdeb wyneb Duw:  
cadarn Iôr a ddaeth ei hun,  
gwnaeth ei babell gyda dyn:  
wele Dduwdod yn y cnawd,  
dwyfol Fab i ddyn yn Frawd;  
Duw yn ddyn, fy enaid, gwêl  
Iesu, ein Emanwêl!

*Clywch lu'r nef yn seinio'n un,  
henffych eni Ceidwad dyn!*

Henffych, T'wysog heddwch yw;  
henffych, Haul Cyfiawnder gwiw:  
bywyd dddwg, a golau ddydd,  
iechyd yn ei esgyll sydd.  
Rhoes i lawr ogoniant nef;  
fel na threngom ganwyd ef;  
ganwyd ef, O ryfedd drefn,  
fel y genid ni drachefn!

*Clywch lu'r nef yn seinio'n un,  
henffych eni Ceidwad dyn!*

Caneuon Ffydd 500

Cof am y cyfiawn Iesu,  
y Person mwyaf hardd,  
ar noswaith drom anesmwyth

bu'n chwysu yn yr ardd,  
a'i chwys yn ddafnau cochion  
yn syrthio ar y llawr:  
bydd canu am ei gariad  
i dragwyddoldeb mawr.

Cof am y llu o filwyr  
â'u gwayw-ffyn yn dod  
i ddal yr Oen diniwed  
na wnaethai gam erioed;  
gwrandewch y geiriau ddwedodd –  
pwyl allasai ond efe? –  
“Gadewch i'r rhain fynd ymaith,  
cymerwch fi'n eu lle.”

Cof am yr wŷneb siriol  
y poerwyd arno'n wir;  
cof am y cefen gwerthfawr  
lle'r arddwyd cwysau hir;  
O annwyl Arglwydd Iesu,  
boed grym dy gariad pur  
yn torri 'nghalon galed  
wrth gofio am dy gur.

Rock of ages, cleft for me  
NONP Volume 1. CD 6. Track 10. 4 verses  
Craig yr oesoedd, cuddia fi,  
er fy mwyn yr holltwyd di:  
boed i rin y dŵr a'r gwaed  
gynt o'th ystlys friw a gaed  
fy nglanhau o farwol rym  
ac euogrwydd pechod llym

Ni all gwaith fy nwylo i  
lenwi hawl dy gyfaith di;  
pe bai im sêl yn dân di-lyth  
a phe llifai 'nagrau byth,  
iawn ni wnaent i gyd yn un:  
ti all achub, ti dy hun.

Dof yn waglaw at dy groes,  
glynaf wrthi drwy fy oes;  
noeth, am wisg dof atat ti;  
llesg, am ras dyrchafaf gri;  
brwnt, i'r ffynnon dof â'm clwyf;  
golch fi, Geidwad, marw 'rwyf.

Tra bwy'n tynnu f'anadl frau,  
pan fo'r llygaid hyn yn cau,  
pan fwy'n hedfan uwch y llawr,  
ac yng ngŵydd dy orsedd fawr,  
graig a holltwyd erof fi,  
gad im lechu ynot ti.

---

NONP Volume 1. CD 9. Track 7. 3 verses

Thine be the glory

**Crist a orchfygodd**

fore'r trydydd dydd,  
cododd ein Gwardwr,  
daeth o'r rhwymau'n rhydd.

Gwisgoedd ei ogoniant  
sydd yn ddisglair iawn,  
wedi gweld ei harddwch  
ninnau lawenhawn.

*Crist a orchfygodd*

*fore'r trydydd dydd,*

*cododd ein Gwardwr,*

*daeth o'r rhwymau'n rhydd.*

Daw ef i'n cyfarch

gyda thoriad gwawr,  
gwasgar ein hamheuon,  
lladd ein hofnau mawr.

Cryfach fyddwn ninnau  
yn ei gwmni ef,  
rhodiwn yn hyderus

ar ein ffordd i'r nef.

*Crist a orchfygodd*

*fore'r trydydd dydd,*

*cododd ein Gwardwr,*

*daeth o'r rhwymau'n rhydd.*

Ni yw ei dystion,

awn ymlaen â'i waith,

gan gyhoeddi'i enw

ym mhob gwlad ac iaith.

Gobaith sydd yn Iesu

i'r holl ddynolryw,

concrwr byd a'i bechod,

y pencampwr yw.

*Crist a orchfygodd*

*fore'r trydydd dydd,*  
*cododd ein Gwardwr,*  
*daeth o'r rhwymau'n rhydd.*

---

Jesus calls us o'er the tumult 126/127

NONP Volume 1. CD 4. Track 3. 5 verses

**Crist a'n geilw! dros ystormydd**  
garw fôr ein bywyd ni,  
daw ei lais i'n clustiau beunydd:  
'Tyred, Gristion, canlyn fi';

Megis clywodd gynt Andreas,  
ger y llyn, ei dirion lef,  
cartref, gwaith, a phob perthynas  
er ei fwyn adawodd ef.

Crist a'n galw o addoliad  
golud euraid ofer fyd;  
rhag pob eilun geilw'n Ceidwad:  
'Cristion, câr fi'n fwy o hyd.'

Yn ein cân a'n galarnadau,  
mewn mwynhad, neu loes a chlwy',  
mewn gofalon, a mwynderau,  
geilw ni i'w garu'n fwy.

Crist a'n geilw! dirion Geidwad,  
o'th drugaredd pâr i ni  
ufuddhau i'th Ddwyfol alwad,  
ac yn llon dy ddilyn di.

---

Cofia'n gwlad, Benllywydd tirion,  
dy gyfiawnder fyddo'i grym:  
cadw hi rhag llid gelynyon,  
rhag ei beiau'n fwy na dim:  
rhag pob brad, nefol Dad,  
taena d'adain dros ein gwlad.

Yma mae beddrodau'n tatau,  
yma mae ein plant yn byw;  
boed pob aelwyd dan dy wenau,  
a phob teulu'n deulu Duw:  
rhag pob brad, nefol Dad,  
cadw di gartrefi'n gwlad.

Gwna'n Sabothau'n ddyddiau'r  
nefoedd

yng ngoleuni d'eiriau glân;  
dyro'r gwllith i'n cymanfaoedd,  
gwna ein crefydd fel ein cân:  
nefol Dad, boed mawrhad  
ar d'Efengyl yn ein gwlad.

---

*tune of The Strife is o'er, the battle done*  
(Halelwia! Halelwia! Halelwia!)

Cyfodi wnaeth Tywysog hedd,  
gorchfygodd uffern fawr a'r bedd,  
esgynnodd i'w dragwyddol sedd:  
Halelwia!

Agorwyd disglair byrth y nef,  
fe glywir gorfoleddus lef  
fel sŵn y môr neu daran gref:  
Halelwia!

Y fuddugoliaeth fawr a gaed,  
daw'r nef a ddaear at ei draed,  
a chenir mwy drwy rin y gwaed:  
Halelwia!

Esgynnodd Crist i entrych nef,  
pob glin a blyg i'w enw ef,  
dyrchafwn orfoleddus lef:  
Halelwia!

Gogoniant fo ar uchel gân  
drwy nef a daear heb wahân  
i'r Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân:  
Halelwia!

---

(Soldiers of Christ, arise)

NONP Volume 1. CD 6. track 12. 6 verses

**Cyfodwch, filwyr Crist,**  
a gwisgwch arfau'r nef,  
yn gryfion trwy ei Ddwyfol nerth,  
a'r Iawn a dalodd ef.

Hy trwy alluog nerth  
ein Hiôr a'n cadarn Ri,

mwy na choncwerwyr fyddwn oll  
trwy Grist a'n carodd ni.

Ymnerthwch ynddo ef –  
ei ras, digonol yw;  
ymwisgwch cyn wynebu'r maes  
yn holl arfogaeth Duw.

Ymlaen o nerth i nerth,  
trwy ymdrech, gweddi a ffydd,  
gan fathru gallu'r Fall dan draed,  
nes cyflawn gario'r dydd –

fel pan fo'r dydd ar ben,  
heb orfod brwydro'n hwy,  
y caffom oll, yn haeddiant Crist,  
dragwyddol goron mwy.

Iesu, dragwyddol Fab,  
dychchafwn fawl i ti,  
sydd, gyda'r Tad a'r Ysbryd Glân,  
yn Dduw, yr Un yn Dri.

---

*Breathe on me, breath of God*

NONP Volume 1. CD 2. Track 3. 4 verses

**Chwyth arnaf, Awel Iôr,**  
dod fywyd ynof i,  
nes caru'r hyn sydd wrth dy fodd  
a gwneud a wnelit Di.

Chwyth arnaf, Awel Iôr,  
nes puro 'nghalon frau,  
mewn un ewyllys â Thydi  
i wneuthur a pharhau.

Chwyth arnaf, Awel Iôr,  
mewn undeb diwahân,  
nes cynnau yn fy marwol ran  
o fflam dy ddwyfol dân.

Chwyth arnaf, Awel Iôr,  
marwolaeth mwy ni ddaw,  
ond byw y bywyd perffaith dardd  
o'th dragwyddolder draw.

---

Lord, the light of your love is shining

NONP Volume 1. CD 4. Track 17. 3 verses

**Dad, dy gariad yn glir ddisgleiria,  
trech na'r t'wyllwch,  
yn glir ddisgleiria;  
Iesu, goleuni'r byd, cofia ninnau,  
ti yw'r gwir a'n rhyddha  
o'n cadwynau:  
Grist, clyw ein cri, goleua ni.**  
*Air disglair Duw,  
dyro d'olau i Gymru heddiw,  
tyrd, Ysbryd Glân, rho dy dân i ni:  
rhed, afon gras,  
taena gariad ar draws y gwledydd,  
dyro dy air a goleuni a fydd.*

**Dof o'th flaen di,  
O Arglwydd sanctaidd,  
o'r cysgodion i'th olau euraidd;  
gwaed y groes ddaw â mi i'r goleuni,  
chwilia fi a glanha fi o'm bryntni:  
Grist, clyw fy nghri, goleua fi.**  
*Air disglair Duw ...*

**Er mor danbaid yw dy ddisgleirdeb,  
ni fydd raid i mi guddio f'wyneb;  
a phob dydd wrth im syllu a syllu  
daw fy mywyd yn ddrych i'th oleuni,  
gwir olau gwiw, gair disglair Duw.**  
*Air disglair Duw ...*

**Dawel nos, sanctaidd yw'r nos**  
Silent night, holy night  
NONP 1.10.14.3

**Dawel nos, sanctaidd yw'r nos,  
cwsq a gerdd waun a rhos,  
eto'n effro mae Joseff a Mair;  
faban annwyl ynghwsg yn y gwair,  
cwsq mewn gwynfyd a hedd,  
cwsq mewn gwynfyd a hedd.**

**Dawel nos, sanctaidd yw'r nos,  
wele fry seren dlos;  
daw'r bugeiliaid a'r doethion i'r drws;  
faban annwyl, yr wyt ti mor dlws,  
cwsq mewn gwynfyd a hedd,**

**cwsq mewn gwynfyd a hedd.**

O Worship the King, all glorious above  
NONP Vol 1 CD 5 track 22 verses 6

**Datganaf dy glod,  
O Arglwydd fy Nuw,  
dy wyrthiau a'th nerth  
sydd hynod eu rhyw;  
d'ogoniant a'th harddwch  
a welir trwy'r byd,  
a phopeth a greaist  
sy'n rhyfedd i gyd.**

**Goleuni o bell  
a roddaist uwchben,  
a thaenaist y nef  
o amgylch fel llen;  
y sêr a'r planedau,  
a'r wybren las faith,  
sy'n datgan trwy'r bydoedd  
dy fawredd a'th waith.**

**Gorseddfa Duw sydd  
yn entrych y nef,  
mewn tonnau a thwrff  
y clywir ei lef;  
mewn tarth a chymylau  
y gwelir ei hynt,  
yn rhodio'n ardderchog  
ar adain y gwynt.**

**Gogoniant i'r Tad  
a greodd y byd,  
gogoniant i'r Mab  
a'n prynodd mor ddrud,  
gogoniant i'r Ysbryd  
glân, sanctaidd, di-lyth;  
i'r Tri yn Un Sylwedd  
rhownd foliant dros byth.**

Only four verses available in Welsh  
Forty days and forty nights  
NONP Volume 1. CD 8. Track 10. 6 verses  
**Deugain nydd a deugain nos**

**yn yr anial temtiwyd di:  
deugain nydd a deugain nos  
yr ymprydiaist drosom ni.**

**Tanlyd ydoedd haul y dydd,  
gwllith y nos yn oer a thrwm;  
ac, ymysg gwylltffilod rhydd,  
daear oedd dy wely llwm.**

**Dysgwn ninnau, er dy fwyn,  
rywfaint o'th ddisgybiad trist;  
cawn, trwy ympryd, nerth i ddwyn  
gofid fel gofidiau Crist.**

**Cnawd ac ysbryd llesg a ball  
dan demtasiwn Satan hy;  
ti a drechaist lid y Fall –  
yn dy nerth mae'r gwan yn gry.**

**So shall we have peace divine;  
holier gladness ours shall be;  
round us too shall angels shine,  
such as ministered to thee.**

**Keep, O keep us, Saviour dear,  
ever constant by thy side;  
that with thee we may appear  
at the eternal Eastertide.**

(Now thank we all our God)  
NONP Volume 1. CD 5 Track 7. 3 verses

**Diolchwn oll i Dduw  
â llaw a llais a chalon,  
cans rhyfeddodau mawr  
a wnaeth i ni blant dynion:  
er dyddiau'n mebyd ni  
a'n cynnar gamre gwan,  
di-rif yw'r doniau hael  
a ddaw'n ddi-baid i'n rhan.**

**Yr hollgyfoethog Dduw  
a roddo inni beunydd  
dangnefedd dan ein bron  
a chalon lawn llawenydd,  
a'n cadw drwy ein hoes  
o fewn ei ras di-lyth,**

**a'n gwared rhag pob drwg  
yn awr hon ac am byth.**

**Boed clod a mawl i Dduw,  
y Tad a'r Mab byth bythoedd,  
ynghyd a'r Ysbryd Glân  
yn entrych nef y nefoedd;  
y Duw sy'n Dri yn Un  
o'r dechrau hyd yn awr,  
a bery eto'n un  
i dragwyddoldeb mawr.**

(Be still, for the presence of the Lord)

NONP Volume 1. CD1. Track 16. verses 3  
**Distewch, cans mae presenoldeb Crist,  
y sanctaidd Un, gerllaw;  
dewch, plygwch ger ei fron  
mewn dwfn, barchedig fraw:  
dibechod yw efe,  
lle saif mae'n sanctaidd le;  
Distewch, cans mae presenoldeb Crist,  
y sanctaidd Un, gerllaw.**

**Distewch, cans gogoniant Crist ei hun  
o'n cylch lewyrcha'n gry';  
fe lysg â sanctaidd dân,  
mawr ei ysblander fry:  
brawychus yw ei nerth,  
Breswlydd mawr y berth;  
Distewch, cans gogoniant Crist ei hun  
o'n cylch lewyrcha'n gry'.**

**Distewch,  
cans mae nerth yr Arglwydd Iôr,  
yn symud yn ein plith;  
daw i'n hiacháu yn awr,  
gweinydda'i ras fel gwllith:  
fe glyw ein hegwan lef,  
drwy ffydd derbyniwch ef;  
Distewch,  
cans mae nerth yr Arglwydd Iôr  
yn symud yn ein plith.**

to the tune of Go, tell it on the mountain

NONP Volume 2. CD 10. Track 4. 4 verses

*Dos, dywed ar y mynydd,  
ledled y bryn ac ymhob man,  
dos, dywed ar y mynydd  
am eni Iesu Grist.*

Tra gwyliai y bugeiliaid  
y praid drwy'r noson hir,  
yn syth o'r nef disgleiriodd  
goleuni dwyfol, clir.

*Dos, dywed ar y mynydd ...*

A hwythau, wedi'i weled,  
aent ar eu gliniau 'nghyd,  
ac yna mynd ar unwaith  
i geisio Prynwr byd.

*Dos, dywed ar y mynydd ...*

Pan geisiais innau Iesu,  
fe'i ceisiais nos a dydd,  
erfyniais am ei gymorth,  
arweiniodd fi yn rhydd.

*Dos, dywed ar y mynydd ...*

Fe'm gwnaeth yn wylwr cyson  
ar furiau dinas Duw,  
a'm rhawd, fi Gristion eiddil,  
mor ddedwydd, dedwydd yw.

*Dos, dywed ar y mynydd ...*

Dowch, blant bychain,  
dowch i foli'r Iesu,  
cariad yw, cariad yw;  
dowch, blant bychain,  
dowch i foli'r Iesu,  
cariad yw, cariad yw.

Daeth i'r byd bob cam  
i lawr o'r nefoedd  
er ein mwyn, er ein mwyn;  
daeth i'r byd bob cam  
i lawr o'r nefoedd  
er ein mwyn, er ein mwyn.

Fe gymerodd blant bach Galilea  
yn ei gôl, yn ei gôl;

fe gymerodd blant bach Galilea  
yn ei gôl, yn ei gôl.

Do, bu farw draw ar ben Calfaria  
drosom ni, drosom ni;  
do, bu farw draw ar ben Calfaria  
drosom ni, drosom ni.

Ond ar fore'r trydydd dydd  
cyfododd,  
daeth o'r bedd, daeth o'r bedd;  
ond ar fore'r trydydd dydd  
cyfododd,  
daeth o'r bedd, daeth o'r bedd.

Canu iddo heddiw mae angylion  
yn y nef, yn y nef;  
canwn ninnau iddo o un galon,  
iddo ef, iddo ef.

Once in royal David's city  
NONP Volume 1. CD 10. Track 10. 4 verses

Draw yn ninas Dafydd Frenin  
yn y beudy isel, gwael,  
dodai mam un bach mewn preseb,  
nid oedd llety gwell i'w gael;  
Mair fendigaid oedd y fam,  
Iesu'r plentyn bach di-nam.

Rhodio daear lawr a fynnai,  
yntau'n Dduw ac Arglwydd nef;  
dim ond llety'r ych yn gysgod,  
gwely gwair a gafodd ef;  
daeth i lawr o fynwes Duw  
heddiw'n Frawd i ddynol-ryw.

Drwy'i ryfeddol rawd yn blentyn  
ufudd fu i'w dad a'i fam,  
carrai'r hon a'i gwyliai'n dirion  
a'i amddiffyn rhag pob cam;  
dylai plant pob gwlad a thref  
fod yn ufudd fel bu ef.

Nid ym mhreseb yr anifail  
y ceir eto'i weled ef,  
ond yn eistedd mewn awdurdod

ar ei orsedd yn y nef;  
cyd-ddyrchafwn ninnau gân  
o fawr glod i'w enw glân.

(A patriotic hymn for Wales)

Finlandia NONP Volume 1. CD 1. Track 17. 3 verses

Dros Gymru'n gwlad,  
O Dad, dyrchafwn gri,  
y winllan wen a roed i'n gofal ni;  
d'amddiffyn cryf  
a'i cadwo'n ffyddlon byth,  
a boed i'r gwir  
a'r glân gael ynddi nyth;  
er mwyn dy Fab  
a'i prynodd iddo'i hun,  
O crea hi yn Gymru ar dy lun.

O deued dydd pan fo awelon Duw  
yn chwythu eto  
dros ein herwau gwyw,  
a'r crondir cras dan ras cawodydd nef  
yn errdi Crist, yn ffrwythlon iddo ef,  
a'n heniaith fwyn â gorfoleddus hoen  
yn seinio fry  
haeddiannau'r addfwyn Oen.

(God who made the earth – 5 verses)

Duw a wnaeth y byd,  
y gwynt a'r storm a'r lli,  
ond nid yw e'n rhy fawr  
i'n caru ni.

Duw a wnaeth y sêr  
sy'n sgleinio acw fry,  
ond nid yw e'n rhy bell  
i'n caru ni.

Duw a ddaeth un tro  
i'w fyd, daeth yma'n fyw,  
a dangos wnaeth i ni  
mai cariad yw.

(Lord, thy word abideth)

NONP Volume 1. CD 4. Track 18. 6 verses

Duw, dy air a erys  
i'n diogel dywys:  
credu ei wirionedd  
ddwg i ni orfoledd.

Pan fo'r gelyn creulon  
yn tristáu ein calon,  
gwir ddiddanwch hyfryd  
ydyw geiriau'r bywyd.

Pan fo'r storm yn rhuo,  
a'r cymylau'n duo,  
ymlid hwn ein hofnau,  
llewyrch yw i'n llwybrau.

Pwy a ddichon fesur  
grym a gwerth y cysur  
rydd dy air sancteiddlan  
er credadun truan?

Gair i roi beunyddiol  
nerth i fyw yn dduwiol;  
gair i ymlid ofnau  
wrth wynebu angau.

Duw, yn dy drugaredd,  
dysg i ni ei sylwedd:  
cadw ni yn wastad  
yn dy ofn a'th gariad.

500 Series Volume 2. CD 2. Track 7

God forgave my sin in Jesus' name  
Duw faddeuodd im yn enw Crist,  
cefais fywyd llawn yn enw Crist,  
ac yn enw Crist dof atoch chwi  
i rannu'r cariad a estynnodd i mi.

*Meddai, 'Rhoddais, rhoddais  
innau yn rhad,  
rhoddwch, rhoddwch chwi;  
ewch yn fy enw i ddinas a gwlad,  
dwedwch mai byw ydwyf fi.'*

Pob gallu a roir yn enw Crist,  
drwy'r nef a'r byd yn enw Crist,  
ac yn enw Crist dof atoch chwi

i rannu'r gallu a estynnodd i mi.  
*Meddai, 'Rhoddais, rhoddais ...*

---

NONP Volume 1.CD 4. Track 9. verses 3  
the tune of Lead us, heavenly Father, lead us  
**Duw, teyrnasa ar y ddaear,**  
**o'r gorllewin pell i'r de.**  
**Cymer feddiant o'r ardaloedd**  
**pellaf, twyllaf is y ne':**  
**haul cyfiawnder, haul cyfiawnder,**  
**llanw'r ddaear fawr â'th ras.**

**Taened gweinidogion bywyd**  
**iachawdwriaeth Crist ar led.**  
**Cluded moroedd addewidion**  
**drosodd draw i'r rhai di-gred:**  
**aed Efengyl, aed Efengyl**  
**ar adenydd Dwyfol wynt.**

**Doed preswylwyr yr anialwch,**  
**doed trigolion bro a bryn.**  
**Doed y rhai sydd ar y cefnfor**  
**i garu'r iachawdwriaeth hyn;**  
**nes bod atsain, nes bod atsain**  
**moliant yn amgylchu'r byd.**

---

Thy hand, O God, has guided  
NONP Volume 1. CD 7. Track 8. 5 verses  
**Dy law, O Dduw, fu'n tywys**  
**dy braidd o oes i oes,**  
**a'r hanes sydd yn eglur**  
**i bawb mewn cred a moes:**  
**ein tadau a fu'n dystion**  
**i'th nodded yn eu dydd,**  
**gan arddel byth un Arglwydd,**  
**un Eglwys ac un Ffydd.**

**Newyddion da gyhoeddwyd**  
**gan holl genhadon heddi,**  
**a mawr a mân wahoddwyd**  
**i ddod i'r nefol wledd;**  
**a dyma'r genadwri**  
**draddodwyd yn ddi-gudd,**  
**gan arddel byth un Arglwydd,**

**un Eglwys ac un Ffydd.**

**Mewn dyddiau o dywyllwch,**  
**a brwydro blin y gad,**  
**ymladdodd y ffyddloniaid**  
**yn ddewrion dros ein gwlad;**  
**traethasant yr Efengyl**  
**sy'n collwng caeth yn rhydd,**  
**gan arddel byth un Arglwydd,**  
**un Eglwys ac un Ffydd.**

*The previous and following verse  
do not appear in Caneuon Ffydd  
but they bring the number of  
verses up to five as with NONP*

**A fyddwn ninnau'n llwfwr,**  
**gan ofni gwawd a sen,**  
**a chadw draw o'r ornest,**  
**a choli'r goron wen?**  
**Na ato Duw! gan Iesu**  
**rhagorach trysor sydd,**  
**os arddel wnawn un Arglwydd,**  
**un Eglwys ac un Ffydd.**

**Ni phaid dy rad drugaredd,**  
**ni phaid dy waith o'n tir,**  
**drwy gymorth dy ddeheulaw**  
**cawn fuddugoliaeth wir;**  
**ac yna d'enw, Arglwydd,**  
**yn ogoneddus fydd,**  
**a'r gân am byth – un Arglwydd,**  
**un Eglwys ac un Ffydd.**

---

**Dyma gariad fel y moroedd,**  
**Tosturiaethau fel y lli:**  
**Twysog Bywyd pur yn marw -**  
**Marw i brynu'n bywyd ni.**  
**Pwy all beidio â chofio amdano?**  
**Pwy all beidio â thraethu'i glod?**  
**Dyma gariad nad â'n angof**  
**Tra fo nefoedd wen yn bod.**

**Ar Galfaria yr ymrwygodd**  
**Holl ffynhonnau'r dyfnder mawr;**  
**Torrodd holl argaeau'r nefoedd**  
**Oedd yn gyfain hyd yn awr:**

**Gras â chariad megis dilyw**  
**Yn ymdywallt ymâ 'nghyd,**  
**A chyfiawnder pur â heddwch**  
**Yn cusanu euog fydd.**

[**O ddyfnderoedd o ddoethineb!**  
**O ddyfnderoedd maith o ras!**  
**O ddirgelion anchwiliadwy,**  
**Bythol uwch eu chwilio i maes!**  
**Mae seraffiaid nef yn edrych**  
**Gyda syndod bob yr un**  
**Ar ddyfnderoedd cariad dwyfol**  
**Duw yn marw dros y dyn!]**

---

NONP Volume 1.CD 3. Track 18. 6 verses  
tune – St Peter – How sweet the name of  
**Dyrchafodd Crist o waelod bedd**  
**goruwch y nefoedd wen,**  
**lle'r eistedd ar orseddfainc heddi,**  
**a'i goron ar ein ben.**

**“Yr Oen a laddwyd, teilwng yw!”**  
**medd holl dafodau'r nef;**  
**ac uned pob creadur byw**  
**i'w folia g uchel lef.**

**Am iddo oddef marwol glwy'**  
**a'n prynu drwy ei waed,**  
**caiff holl goronau'r nefoedd mwy**  
**eu bwrw wrth ei draed.**

**Boed peraroglaui enw drud**  
**yn llenwi daear lawr,**  
**a chladder enwau'r by di gyd**  
**yn enw Iesu mawr.**

---

NONP Volume 1. CD 1. Track 12. 3 verses  
As the deer pants for the water  
**Fel yr hydd a fref am ddyfroedd,**  
**felly mae fy enaid i**  
**yn dyheu am fod yn agos**  
**er mwyn profi o'th gwmni di.**  
*Ti dy hun yw fy nerth a'm tŵr,*  
*a chyda thi, 'rwyf finnau'n siwr*

*mai tydi yw serch fy nghalon,*  
*ac O Dduw, addolaf di.*

**Gwell wyt ti nag aur ac arian,**  
**dim ond ti all lenwi 'mryd:**  
**ti dy hun rydd im wir lawenydd,**  
**'rwyd ti'n werth y byd i gyd.**

**Ti yw 'Mrawd a thi yw 'Nghyfaill,**  
**er mai'r Brenin ydwyd ti:**  
**caraf di gan-mil gwell na'r cwbl,**  
**mwy na phawb a phopeth sy.**

---

NONP Volume 1. CD 5. Track 16. verses 4  
O Lord, my God, when I in awesome  
wonder

**Fy Arglwydd Dduw,**  
**daw im barchedig ofon**  
**wrth feddwl am holl waith**  
**dy ddwylo Di,**  
**yng nghân y sêr**  
**a rhu y daran ddofon,**  
**trwy'r cread oll,**  
**Dy rym a welaf i.**  
*Cân fenaid i –*  
*fy Arglwydd Dduw i Ti,*  
*Mor fawr wyt Ti, mor fawr wyt Ti.*  
*Cân fenaid i –*  
*fy Arglwydd Dduw i Ti,*  
*Mor fawr wyt Ti, mor fawr wyt Ti.*

**Wrth fynd am dro**  
**trwy'r glennydd teg a'r dolydd**  
**a gwrando cân yr adar yn y gwŷdd,**  
**a bwrw trem o gopa uchel fynydd,**  
**yn sŵn y nant neu falm yr awel rydd.**

**Pan ddaw i'm cof**  
**i Dduw roi'i Fab heb arbed**  
**a'i roi yn lawn – tu hwnt i ddeall dyn,**  
**ar Groes o'i fodd**  
**yn dwyn fy maich i'm gwared,**  
**i faddai'mai –**  
**rhoes Ef ei waed ei Hun.**

Pan ddêl y Crist  
â bloedd y fuddugoliaeth  
a'm dwyn i dref – mor llawen fyddaf i,  
ymgrymu yno  
wnaf mewn parchedigaeth  
gan ddatgan byth –  
fy Nuw mor fawr wyt Ti.

---

In the bleak midwinter  
NONP Volume 1. CD 10. Track 2. 5 verses  
Ganol gaeaf noethlwm  
cwynai'r rhewynt oer,  
ffridd a ffrwd mewn cloeon  
llonydd dan y lloer:  
eira'n drwm o fryn i dref,  
eira ar dwyn a dôl,  
ganol gaeaf noethlwm  
oes bell yn ôl.

Metha nef a daear  
gynnwys ein Duw;  
ciliant hwy a darfod  
pan fydd ef yn llyw:  
ganol gaeaf noethlwm  
digon beudy trist  
i'r Arglwydd hollalluog,  
Iesu Grist.

Beth a roddaf iddo,  
llwm a thlawd fy myd?  
Pe bawn fugail rhoddwn  
orau'r praidd i gyd;  
pe bawn un o'r doethion  
gwnawn fy rhan ddi-goll;  
ond pa beth a roddaf?  
Fy mywyd oll.

---

CF 477 ton Ganwyd Iesu  
Ganwyd Iesu'n nyddiau Herod,  
ganwyd Iesu'n Frenin nef,  
gwelwyd seren yn y dwyrain  
oedd yn arwain ato ef.

*Rhown ein moliant uwch ei breseb;  
mae'r gogoniant ar ei wŷneb,*

*wŷneb Iesu, wŷneb Iesu,  
Brenin nef.*

Wele'r seren fry'n y dwyrain  
yno'n sefyll yn y nen  
uwch y lle gorweddai'r bychan:  
bu lawenydd mawr dros ben.  
*Rhown ein moliant ...*

Rhoes y doethion eu hanrhegion  
wrth ei breseb ar y gwair,  
aur a thus a myrr a sedan,  
llawer trysor i Fab Mair.

*Rhown ein moliant ...*

Dwed angylion gyda dynion,  
ef yw'r trysor mwya'i fri,  
a thra rhodium lwybrau daear  
Iesu Grist fo'n brenin ni.

*Rhown ein moliant ...*

---

*tune Nottingham –  
Take my life and let it be*

Gorfoleddwn, Iesu mawr,  
am y dydd y torrodd gwawr;  
bywyd newydd ddaeth i ni  
wedi concwest Calfarî.

Gorfoleddwn, Geidwad cu,  
am y golau oddi fry;  
hwn yw'r golau mawr a rydd  
obaith gwell i blant y ffydd.

Gorfoleddwn, Fab ein Duw,  
am dy rodd i ddynol-ryw;  
tarddodd bywyd i bob oes  
drwy y wyrth ar bren y groes.

Gorfoleddwn, llawenhawn:  
gwag yw'r bedd, a'r nef yn llawn;  
rhoddwn ynot ar wa ffydd,  
arwr mawr y trydydd dydd.

---

Child in the manger – Bunesan  
NONP Volume 1. CD 5. Track 3. Verses 3.  
Grist bendigedig,

faban y Forwyn,  
Grist gwrthodedig,  
Arglwydd byd;  
baich ein camweddau  
ddug yr un bychan,  
llwyth ein troseddau  
arno i gyd.

Grist bendigedig,  
Fab iachawdwriaeth,  
ddoe'n ostyngedig  
yma'n byw:  
heddiw yn eiriol  
yn y gogoniant  
dros edifeiriol  
gyda Duw.

Grist bendigedig  
ddoe ar y ddaear,  
heddiw'n garedeg  
Frenin nef:  
dwyfol drigfannau  
sydd yn ein disgwyl,  
tynion fo'n tannau  
iddo ef.

---

Morning has broken – Bunesan  
NONP Volume 1. CD 5. Track 3. verses 3.

Gwawriodd yr heulwen  
fel y wawr gyntaf;  
canodd mwyalchen  
gyntaf y côr.  
Diolch am gytgan  
hyfryd yr adar,  
dod y mae'r cyfan  
o law yr Iôr.

Hyfryd gawodydd  
disgyn o'r nefoedd  
wnant y boreddydd  
ar faes a ffridd.  
Diolch am flodau  
lliwgar y gerddi,  
peraidd aroglau  
gyfyd o'r pridd.

Fi piau'r heulwen,  
fi piau'r bore,  
heddiw'n y wawr wen  
olau a chlir,  
canwn yn llawen,  
canwn bob bore,  
Duw sy'n rhoi bywyd  
newydd i'n tir.

---

(Blest are the pure in heart)  
NONP Volume 1. CD 2. track 1. 4 verses

Gwyn fyd y galon bur,  
ei braint yw gweled Duw,  
a byw yn ei gyfrinach ef –  
a thrigfan iddo yw.

Daeth bywyd in a hedd  
trwy Grist a'i ryfedd ras:  
Duw hollalluog er ein mwyn  
a wisgodd agwedd gwas.

Ymwêl efe o hyd  
â'r truant yn ei gur;  
dewisol fan ei orsedd yw  
y galon lân a phur.

O Arglwydd, yn dy ras,  
a'th fendith arnom ni,  
glanha ein calon fel y bo  
yn addas deml i ti.

---

Jesus Christ is risen today, alleluia!  
NONP Volume 1. CD 8. Track 13. 3 verses

Heddiw cododd Crist yn fyw,  
Halelwia!  
Llawen ddydd o foliant yw,  
Halelwia!  
Dioddefedd angau loes,  
Halelwia!  
er ein prynu ar y groes,  
Halelwia!

Canwn foliant iddo ef,  
Halelwia!

Crist ein Brenin mawr o'r nef,  
Halelwia!  
Dringodd fynydd Calfari,  
Halelwia!  
Aeth drwy'r bedd i'n hachub ni,  
Halelwia!

Trwy ei loes a'i boenau mawr,  
Halelwia!  
daeth â hedd i blant y llawr,  
Halelwia!  
Myrdd ar fyrdd o saint y sydd,  
Halelwia!  
yn ei foli nos a dydd,  
Halelwia!

---

*ton / tune Nativity  
sometimes for Come, Let us join our ...*  
Hwn ydyw'r dydd y cododd Crist  
gan ddryllio pyrth y bedd;  
O cyfod, f'enaid, na fydd drist,  
i edrych ar ei wedd.

Cyfodi wnaeth i'n cyfiawnhau,  
bodlonodd ddeddf y nef;  
er maint ein pla cawn lawehau,  
mae'n bywyd ynddo ef.

Gorchfygodd angau drwy ei nerth,  
ysbeiliodd uffern gref;  
ac annherfynol ydyw'r gwerth  
gaed yn ei angau ef.

Esgynnodd mewn gogoniant llawn  
goruwch y nefoedd fry;  
ac yno mae, ar Sail ei Iawn,  
yn eiriol drosom ni.

Pob gallu llawn drwy'r byd a'r nef  
sydd yn ei law yn awr;  
ni rwystra gallu uffern gref  
ddibenion Iesu mawr.

---

Hyfryd eiriau'r Iesu,  
bywyd ynddynt sydd,

digon byth i'n harwain  
i dragwyddol ddydd:  
meant o hyd yn newydd,  
meant yn llawn o'r nef;  
sicrach na'r mynyddoedd  
yw ei eiriau ef.

Newid mae gwybodaeth  
a dysgeidiaeth dyn;  
aros mae Efengyl  
Iesu byth yr un;  
Athro ac Arweinydd  
yw efe 'mhob oes;  
a thra pery'r ddaear  
pery golau'r groes.

Wrth in wrando'r Iesu,  
haws adnabod Duw;  
ac wrth gredu ynddo  
mae'n felysach byw.  
Mae ei wenau tirion  
yn goleuo'r bedd;  
ac yn ei wirionedd  
mae tragwyddol hedd.

---

All people that on earth do dwell –  
last verse only  
Old Hundredth. NONP 1. 1. 7. 5

I Dad y trugareddau i gyd  
rhonefoliant, holl drigolion byd;  
llu'r nef molienwch, bawb ar gân,  
y Tad a'r Mab a'r Ysbryd Glân.

---

I Dduw bo'r gogoniant =  
To God be the Glory  
NONP Volume 1. CD7. Track 10. verses 3

I Dduw bo'r gogoniant,  
fe wnaeth wyrthiau mawr,  
rhoi'i Fab yn ei gariad  
dros holl blant y llawr,  
hwn ildiodd ei fywyd  
yn iawn dros ein bai,  
porth nef a agorodd  
cawn fywyd di-rai.

*Clod i Dduw! Clod i Dduw!  
Gwranddo fydd ar ei lef.  
Clod i Dduw! Clod i Dduw!  
Rhoddwn glod iddo ef.  
O dewch at yr Arglwydd  
drwy'r Iesu yn awr,  
rhowch iddo'r gogoniant,  
fe wnaeth wyrthiau mawr.*

O! Ras sydd mor berffaith,  
drwy'r gwaed fe gaed iawn,  
i bob un sy'n credu'r  
addewid yn llawn;  
i'r pennaf pechadur a gred yn y Tad,  
ar unwaith gan Iesu  
caiff Bardwn yn rhad.

Mawr waith fu ein dysgu,  
mawr wyrthiau a wnaeth,  
a mawr yw'r gorfoledd  
drwy Iesu a ddaeth;  
ond purach a chryfach  
a llawnach a fydd,  
rhyfeddod yr arfaeth –  
gweld Iesu ryw ddydd.

---

Away in a manger  
NONP Volume 1. CD 9. Track 14. 3 verses

I orwedd mewn preseb  
rhoed Crêwr y byd,  
nid oedd ar ei gyfer  
na gwely na chrud;  
y sêr oedd yn syllu  
ar dlws faban Mair  
yn cysgu yn dawel  
ar wely o wair.

A'r gwartheg yn breffu,  
y baban ddeffroes,  
nid ofnodd, cans gwyddai  
na phrofai un loes.  
'Rwyf, Iesu, 'n dy garu,  
O edrych i lawr  
a saf wrth fy ngwely  
nes dyfod y wawr.

Tyrd, Iesu, i'm hymyl,  
ac aros o hyd  
i'm caru a'm gwyllo  
tra bwyf yn y byd;  
bendithia blant bychain  
pob gwlad a phob iaith,  
a dwg ni i'th gwmni  
ar derfyn ein taith.

---

Iesu tirion, gwêl yn awr  
blentyn bach yn plygu i lawr:  
wrth fy ngwendid trugarha,  
paid â'm gwrthod, Iesu da.

Carwn fod yn eiddot ti;  
Iesu grasol, derbyn fi;  
gad i blentyn bach gael lle,  
drwy dy ras, yn nheyrnas ne'.

Carwn fod fel ti dy hun,  
meddu calon ar dy lun;  
addfwyn, tirion iawn wyt ti,  
ysbryd cariad rho i mi.

Dysg im wneuthur heb nacâd  
'wyllys Duw, fy nefol Dad,  
n'ad im ddiogio Ysbryd Duw,  
er d'ogoniant gad im fyw.

---

Jesus is Lord  
NONP Volume 1. CD 4. Track 4. 3 verses

Iesu yw'r Iôr! Y cread sy'n cyhoeddi,  
cans trwy ei nerth  
pob llwyn a pherth a ddaeth i fod;  
Iesu yw'r Iôr! Cyfanfyd sy'n mynegi,  
haul, loer a sêr datganant  
mai Iesu yw'r Iôr.

*Iesu yw'r Iôr, Iesu yw'r Iôr;  
cenwch yr haleliwia i Iesu ein Iôr.*

Iesu yw'r Iôr!  
Er hyn, o'r nefol wynfyd  
daeth nefol Oen  
i ddiodde poen ar Galfari;  
Iesu yw'r Iôr, ohono Ef daw bywyd,

er hyn fe roes ei fywyd  
yn Iawn drosom ni.

Iesu yw'r Iôr!  
Dros bechod bu'n fuddugol,  
a daeth yn rhydd  
y trydydd dydd a choncro'r bedd;  
Iesu yw'r Iôr!  
Â sanctaidd Ysbryd nerthol  
â enfyn Duw i ddangos  
mai Iesu yw'r Iôr!

---

All people that on earth do dwell CF 75  
NONP 1. 1. 7. 5

I'r Arglwydd cenwch lafar glod  
a gwnewch ufudd-dod llawen fryd;  
dowch o flaen Duw â pheraidd dôn,  
drigolion daer fawr i gyd.

Gwybyddwch bawb mai'r Iôr sy Dduw  
a'n gwnaeth ni'n fyw fel hyn i fod,  
nid ni ein hun – ei bobl ym ni  
a defaid rhi' ei borfa a'i nod.

O ewch i'w byrth â diolch brau,  
yn ei gynteddau molwch ef,  
bendithiwch enw Duw is rhod,  
rhowch iddo glod drwy lafar lef.

Cans da yw'r Arglwydd, awdur heddi,  
da ei drugaredd a di-lyth,  
ei lân wirionedd in a roes  
o oes i oes a bery byth.

---

Brightest and best of the sons of the  
morning

NONP Volume 1. CD 9. Track 15. 4 verses  
Loywaf o'r sêr

sydd yn britho'r ffurfafen,  
gwasgar ein t'wyllwch,  
a gwawried y dydd:  
seren y dwyrain,  
rhagflaenydd yr heulwen,  
dwg ni i'r fan  
lle mae'r baban ynghudd.

Gwelwch mor isel  
ei ben yn y preseb,  
disglair yw oerwlith  
y nos ar ei grud;  
moled angyllion  
mewn llety cyn waeled  
Frenin, Creawdwr  
a Cheidwad y byd.

A daliwn ni  
iddo'r gorau o'n trysor,  
llysiau o Edom  
yn offrwm i'n Duw,  
gemau o'r mynydd  
a pherlau o'r dyfnfor,  
myrr o'r anialdir,  
ac aur o Beriwr?

Ofer y ceisiem  
ei wên ag anrhegion,  
ofer â golud  
y ddaear yn hael:  
gwell ganddo gywir  
addoliad y galon,  
gwell gan yr Iesu  
yw gweddi y gwael.

---

(Colours of day)  
NONP Vol 1. CD 2. track 11. 3 verses

Lliwiau y dydd sy'n harddu y wawr,  
pelydrau yr haul a'r gwllith ar y llawr,  
dewch allan i'r bore, cread ein Duw,  
cyhoeddwr wrth bob un  
fod yr Iesu yn fyw:  
*Edrychwch i'r chwith,  
edrychwch i'r dde,  
mynydd a phant,  
a strydoedd y dre,  
cewch deimlo ei Ysbryd,  
gweld ei holl waith,  
Bod yn fyw yn ei gariad  
ar hyd y daith.*

Canol y dref neu ymyl y don,

mae'r haul yn bywhau,  
mae pobman yn llon,  
goleuni y byd sy'n dyfod yn nes,  
dyrchafa dy wyneb  
a chei deimlo ei wres.

*Edrychwch i'r chwith ...*

Mwynder yr hwyr sy'n llenwi y fro,  
a suddo mae'r haul,  
ffarwelio dros dro,  
ond aros mae Iesu, Haul yr holl fyd,  
i chwalu'r tywyllwch  
i'w ganlynwyr i gyd.

*Edrychwch i'r chwith,*

---

(I need Thee every hour)

NONP Vol 2. CD 4. Track 14. 5 verses

Mae d'eisiau Di bob awr,  
fy Arglwydd Dduw,  
daw heddi o'th dyner lais  
o nefol ryw.

*Mae d'eisiau, O! mae d'eisiau,  
bob awr mae arnaf d'eisiau;  
bendithia fi fy Ngheidwad,  
bendithia'n awr.*

Mae d'eisiau Di bob awr,  
trig gyda mi,  
cyll temtasiynau'u grym  
yn d'ymyl Di.

*Mae d'eisiau, O! mae d'eisiau ...*

Mae d'eisiau Di bob awr,  
rho d'olau clir,  
rho imi nerth, a blas  
dy eiriau gwir.

*Mae d'eisiau, O! mae d'eisiau ...*

Mae d'eisiau Di bob awr,  
Sancteiddiaf Ri,  
yn Iesu gwna fi'n wir  
yn eiddot Ti.

*Mae d'eisiau, O! mae d'eisiau ...*

---

Mawl a fo i'r Iesu = Glory be to Jesus

NONP Vol 2. CD 3. Track 7. 8 verses

1 Mawl a fo i'r Iesu  
fu mewn dirfawr loes;  
rhoddodd Waed ei galon  
drosom ar y Groes.

2 Bywyd yn dragwyddol  
yn ei Waed ef sydd;  
mawr yw ei drugaredd,  
gwnaeth y caeth yn rhydd.

3 Bendith yn dragwydd  
ddaeth trwy Iesu glan;  
cadwodd ni rhag myned  
oll i uffern dan.

4 Dwyn a wnaeth gwaed Abel  
ddial oddi fryd;  
gwaed yr Iesu tirion  
yw ein heddwch ni.

5 Pan fo'r Gwaed yn disgyn  
ar ein calon ddrwg,  
Satan, mewn mawr ddychryn,  
ddianc yn ei wg

6 Pan ddyrchafom foliant  
am ei rinwedd ef,  
una yn y gytgan  
holl Angylion nef.

7 Canwn bawb yn uchel  
glod am ein glanhad,  
uwch ac uwch fo'r moliant  
am ei werthfawr Waed.

---

Praise to the Lord, the Almighty

NONP Vol 1. CD 6. Track 6. 4 verses

Mawl fo i'r Arglwydd,  
sy'n Frenin gogoniant a mawredd:  
clod i'r Goruchaf,  
a ddyry i'm henaidd orfoledd:  
tyred â'th gân,  
salmau, telynau yn lân,  
seinir ei fawl yn ddiddiwedd.

Mawl fo i'r Arglwydd,

Penllywydd rhyfeddol pedryfan:  
noddfa dragwyddol  
ei adain sydd drosot yn llydan:  
cadarn yw'r Iôr,  
ynddo i'th gynnal mae stôr,  
amlwg i'th olwg yw'r cyfan.

Mawl fo i'r Arglwydd,  
bendithia dy ran yn dragywydd:  
tywallt o'r nefoedd  
mae ffrydiau y cariad ni dderfydd:  
enaid, erglyw!  
gymaint yw gallu dy Dduw,  
cariad hyd fyth a'th gyferfydd.

Mawl fo i'r Arglwydd,  
a'r cwbul sydd ynof yn ennyn:  
ef yw goleuni  
dy enaid bob dydd sy'n dy ddilyn:  
holl llwythau'r byd,  
cenwch yn llafar ynghyd:  
moler hyd oesoedd di derfyn!

---

NONP Volume 1. CD 7. Track 18. 4 verses  
*Tune Darwall 'Ye Holy Angels Bright'.*

Mawr ddyled arnom sydd  
i foli Iôr y nef,  
wrth weld o ddydd i ddydd  
mor dirion ydyw ef;  
ef yw ein craig, ein tŵr a'n maeth;  
y flwyddyn hon ein cofio wnaeth.

Ni all tafodau byw  
holl ddynol-ryw yn un  
fyth ddatgan gymaint yw  
ei gariad ef at ddyn;  
efe sy'n darpar, ar ei ran,  
ei nerth a'i fywyd ymhob man.

O cydfoliannwn Duw  
am drugareddau rhad,  
a gweld dirioned yw  
ei ofal am ein gwlad;  
O boed i'n henaid dduwiol ddawn  
i ganmol Duw â chalon lawn.

Mi glywaf dyner lais  
yn galw arnaf fi  
i ddod a golchi 'meiau i gyd  
yn afon Calfari.

Yr Iesu sy'n fy ngwadd  
i dderbyn gyda'i saint  
ffydd, gobaith, cariad pur a hedd  
a phob rhyw nefol fraint.

Arglwydd, dyma fi  
ar dy alwad di,  
canna f'enaid yn y gwaed  
a gaed ar Galfari.

Yr Iesu sy'n cryfhau  
o'm mewn ei waith trwy ras;  
mae'n rhoddi nerth i'm henaid gwan  
i faeddu 'mhechod cas.

Gogoniant byth am drefn  
y cymod a'r glanhad;  
derbyniaf Iesu fel yr wyf  
a chanaf am y gwaed.

---

(A patriotic hymn for Wales)  
Hyfrydol / Blaenwern

Molwn di, O Dduw ein tadau,  
uchel ŵyl o foliant yw;  
awn i mewn i'th byrth â diolch,  
ac offrymwn ebyrth byw.  
Cofiwn waith dy ddwylo arnom,  
a'th amddiffyn dros ein gwlad;  
tithau, o'th breswylfa sanctaidd,  
gwêl a derbyn ein mawrhad.

Ti â chariad Tad a'n ceraist  
yn yr oesoedd bore draw,  
o dywyllwch i oleuni  
y'n tywysaist yn dy law;  
cawsom di ym mhob cenedlaeth  
fel dy Enw'n gadarn Iôr,  
cysgod gwell na'r bryniau uchel,  
ac na chedyrn donnau'r môr.

Cudd ni eto dan dy arwain,

a bydd inni'r fur o dân;  
tywys di ein tywysogion,  
megis gynt, â'th Ysbryd Glân.  
Pâr i'n cenedl annwyl rodio  
yn dy ofn o oes i oes,  
gyda'i ffydd yng ngair y cymod,  
gyda'i hymffrost yn y Groes.

---

Nid wy'n gofyn bywyd moethus,  
aur y byd na'i berlau mân.  
Gofyn 'rwyf am galon hapus,  
calon onest calon lân.

*Calon lân yn llawn daioni,  
tecach yw na'r lili dlos.  
Dim ond calon lân all ganu  
canu'r dydd a chanu'r nos!*

Pe dymunwn olud bydol,  
chwim adenydd iddo sydd,  
golud calon lân rinweddol  
yn dwyn bythol elw fydd.

*Calon lân yn llawn daioni ...*

Hwyr a bore fy nymuniad,  
esgyn ar adenydd cân,  
ar i Dduw, er mwyn fy Ngheidwad  
rhoddi imi calon lân.

*Calon lân yn llawn daioni ...*

---

O Arglwydd, dysg im chwilio  
i wirioneddau'r Gair  
nes dod o hyd i'r Ceidwad  
fu gynt ar liniau Mair;  
mae ef yn Dduw galluog,  
mae'n gadarn i iacháu;  
er cymaint yw fy llygredd  
mae'n ffynnon i'm glanhau.

---

O little town of Bethlehem  
NONP Volume 1. CD 10. Track 9. 4 verses  
O dawel ddinas Bethlehem,  
o dan dy sêr di-ri',  
ac awel fwyn Jwdea'n dwyn

ei miwsig atat ti:  
daw heno seren newydd, dlos  
i wenu uwch dy ben,  
a chlywir cân angylion glân  
yn llifo drwy y nen.

O dawel ddinas Bethlehem,  
bugeiliaid heno a ddaw  
dros bant a bryn at breseb syn  
oddi ar y meysydd draw;  
a chwilio wnânt am faban bach  
sy'n dod yn Geidwad dyn,  
yn obaith byw i ddynol-ryw,  
y Bugail da ei hun.

O dawel ddinas Bethlehem,  
pwy heno ynot sydd?  
Pa ddiethr wawr sy'n dod i lawr,  
pa ryw dragwyddol ddydd?  
Os cysgu'n dawel heno 'rwyf  
daw golau penna'r nef  
i'r ogof laith i ddechrau'r daith:  
gogoniant iddo ef!

---

O deued pob Cristion  
i Fethlem yr awron  
i weled mor dirion yw'n Duw;  
O ddyfnder rhyfeddod,

fe drefnodd y Duwdod  
dragwyddol gyfamod i fyw:  
daeth Brenin yr hollfyd

i oedfa ein hadfyd  
er symud ein penyd a'n pwn;  
heb le yn y llety,  
heb aelwyd, heb wely,  
Nadolig fel hynny gadd hwn.

*Rhown glod i'r mab bychan,  
ar liniau Mair wiwlan,  
daeth Duwdod mewn baban  
i'n byd:*

*ei ras, O derbyniwn,  
ei haeddiant cyhoeddwn  
a throsto ef gweithiwn i gyd.*

Tywysog tangnefedd

wna'n daear o'r diwedd  
yn aelwyd gyfannedd i fyw;  
ni fegir cenfigen,  
na chynnwrf na chynnen,  
dan goron bydd diben ein Duw.  
Yn frodyr i'n gilydd,  
drigolion y gwledydd,  
cawn rodio yn hafddydd y nef;  
ein disgwyl yn Seion  
i ganu yr anthem  
ddechreuwyd ym Methlem, mae ef.

---

O little town of Bethlehem  
NONP Volume 1. CD 10. Track 9. 4 verses

**O ddinas fechan Bethlehem,**  
mor dawel gwelir di  
mewn hun mor bêr o dan y sêr  
sy'n distaw deithio fry;  
yn dy heolydd tywyll di  
y mae Goleuni'r byd,  
ac ynot ti mae'n gobaith ni  
a'n hofnau oll ynghyd.

O sêr y bore, tystiwch chwi  
am eni'r sanctaidd Un,  
a molwch ef, etifedd nef,  
a bydded hedd i ddyn;  
fe aned Crist o'r Forwyn Fair,  
a'r byd yn cysgu'n drwm,  
ond engyl lu sy'n gwylio'n gu  
y Mab mewn preseb llwm.

Yn dawel iawn a distaw daw  
i'r byd y ryfedd rodd;  
fel hyn rhydd Duw i ddynolryw  
fendithion nef o'i fodd:  
ni chlywir ei ddyfodiad ef;  
er amled beiau'r byd,  
calonnau gwir rydd groeso clir  
i'r Ceidwad mewn o hyd.

Y baban bendigedig glyw  
weddïau'r plantos mân,  
gwrandewi di bob cwyn a chri,  
O Fab y wryf lân:

Ile gwylia cariad gwir o hyd,  
a'r drws yng ngofal ffydd,  
tyr bore wawr dros ddaear lawr:  
Nadolig dedwydd fydd.

O sanctaidd blentyn Bethlehem,  
tyrd atom, gwranddo ni,  
trig di'r awr hon o dan y fron,  
ein Brenin ydwyt ti:  
fe seinia côr yr engyl glân  
eu carol yn ein clyw,  
tyrd atom ni ac aros di,  
Emanwêl, ein Duw.

---

O God, our help in ages past  
NONP Volume 1. CD 5. Track 12. verses 6  
**O Dduw, ein cymorth ym mhob oes,**  
a'n gobaith tra bo byd;  
ein cysgod dan bob timestl groes,  
a'n bythol gartref clyd.

Dan gysgod dy orseddfa bu  
preswylfa'r Saint mewn hedd;  
dignonol yw dy fraich o'n tu,  
a golwg ar dy wedd.

Cyn llunio ffurf un hanfod byw,  
na gosod seiliau byd,  
o dragwyddoldeb ti sydd Dduw,  
a'r un wyt ti o hyd.

Mil o flynyddoedd yn dy wŷydd  
fel doe yn cilio sydd,  
neu fore wylidwriaeth fer  
yn darfod gyda'r dydd.

Dwg amser fel llifeiriant cryf  
o'i flaen holl oesau'r llawr;  
yn angof ânt, fel breuddwyd brau  
diflannant gyda'r wawr.

O Dduw, ein cymorth ym mhob oes,  
a'n gobaith tra bob byd,  
bydd Geidwad inni dan bob croes,  
a'n bythol gartref clyd.

---

O come, all ye faithful  
NONP Volume 1. CD 10. CD 6. 4 verses  
**O deuwch, ffyddloniaid,**  
oll dan orfoleddu,  
**O deuwch, O dewch i Fethlehem dref:**  
wele, fe anwyd  
**Brenin yr angylion:**  
**O deuwch ac addolwn,**  
**O deuwch ac addolwn,**  
**O deuwch ac addolwn Grist o'r nef!**

**O cenwch, angylion,**  
**cenwch, gorfoleddwch,**  
**O cenwch,**  
**chwi holl ddinasyddion y nef:**  
**cenwch "Gogoniant**  
**i Dduw yn y goruchaf!"**  
**O deuwch ac addolwn,**  
**O deuwch ac addolwn,**  
**O deuwch ac addolwn Grist o'r nef!**

**O henffych, ein Ceidwad,**  
**henffych well it heddiw;**  
**gogoniant i'th enw**  
**drwy'r ddaear a'r nef:**  
**Gair y tragwyddol**  
**yma'n ddyn ymddengys:**  
**O deuwch ac addolwn,**  
**O deuwch ac addolwn,**  
**O deuwch ac addolwn Grist o'r nef!**

---

NONP Volume 1. CD 7. Track 14. 7 verses

**O disgyn, Ysbryd Glân,**  
o'r nefoedd wen i lawr  
i gynnu'r dwyfol dân  
yn ein colonnau nawr.

**Y ddawn a roddaist ti**  
**i'th Eglwys pan oedd wan**  
**a wnaeth ei gweinïaid hi**  
**yn wrol ar dy ran.**

**O gael tafodau tân**  
**a phofi'r nerthol wynt,**

anturiwn ninnau 'mlaen  
fel dy ddisgyblion gynt.

**O'th garu tra bôm byw**  
**a rhodio gyda thi,**  
**aroglau meysydd Duw**  
**fydd ar ein gwisgoedd ni.**

**Tydi all ein glanhau**  
**o'n beia, fawr a mân;**  
**gad inni fyth fwynhau**  
**dy ddoniau, Ysbryd Glân.**

---

NONP Volume 1. CD 6. Track 10. 4 verses

**O Dduw yr holl genhedloedd,**  
**a chyfaill gwledydd byd,**  
**rho fendith bryniau'r nefoedd**  
**i Gymru fechan glyd;**  
**i'w phlant ymhell ac agos**  
**doed golau gwell yn awr;**  
**ar ôl tymhestlog hirnos**  
**doed tawel hafaidd wawr.**

**Ar fryniau Galilea**  
**bu sôn am Deyrnas nef,**  
**ar fryniau annwyl Gwalia**  
**cod heddiw, Grist, dy lef:**  
**mae llonder yn dy eiriau,**  
**a chariad yn dy lais,**  
**mae heddwch ar dy lwybrau,**  
**heb lid na brad na thrais.**

**Dysg inni fyw i'th barchu,**  
**a gwna'n calonnau'n un,**  
**dros Iesu a thros Gymru,**  
**i weithio yn gytûn:**  
**a cherdded ysbryd hawddgar**  
**hyd wledydd pella'r byd,**  
**nes dwyn holl bobloedd daear**  
**yn frodyr o un fryd. Amen.**

---

Tell out, my soul, the greatness of the  
Lord;

NONP Volume 1. CD 6. Track 19. verses 4

O f'enaid, cân,  
mawrha yr Arglwydd Dduw,  
bydd lawen ynndo,  
dy Waredwr yw,  
y nerthol Iôr,  
wnaeth bethau mawr i Mair,  
am iddi gredu yn ei sanctaidd air.

O oes i oes, i'r rhai a hofnant ef,  
trugaredd Duw sy'n ddinacâd o'r nef;  
ei gadarn fraich  
sy'n dymchwel beilchion byd,  
dyrchafu'r gwylaidd  
y mae ef o hyd.

Mae'n porthi'n hael  
newynog rai o'i stôr,  
ond troi'r goludog  
wna heb ddim o'i ddôr;  
a chofio mae ei addewidion mawr  
i'n tadau ac i ninnau'r plant yn awr.

O f'enaid, cân,  
i Dduw yn ôl ei air,  
bydd gaeth i'r Arglwydd,  
gwyn dy fyd fel Mair,  
mawrha y Tad a'r Mab yn ddiwahân,  
ac arnat beunydd  
doed yr Ysbryd Glân.

---

O Love, that will not let me go  
NONP Volume 1. CD 5. Track 17. 4 verses

O gariad na'm gollyngi i,  
gorffwysfa f'enaid ynot sydd;  
yr einioes roddaist, cymer hi,  
a llawnach, glanach fyth ei lli  
yn d'eigion dwfn a fydd.

O lewyrch yn fy nghanlyn sydd,  
fy nghannwyll wan a rof i ti;  
a golau bentyg hon a fydd  
yn t'wynnu'n loywach, decach dydd  
yn dy glaer heulwen di.

O wynfyd pur a'm cais drwy fraw,  
ni allaf rhagot gau fy mron;

'rwy'n gweld yr enfys drwy y glaw,  
yn ôl d'addewid gwn y daw  
diddagrau fore llon.

O groes a gwyd fy mhen, yn awr  
ni feiddiaf ddeisyf d'ochel di;  
mi fwriaf falchder f'oes i'r llawr,  
a tharodd o'i lwch, â gwridog wawr,  
fy mythol fywyd i.

---

Hark the glad sound! the Saviour comes  
NONP Volume 1. CD 9. Track 21. 4 verses

O hyfryd sain! mae'r Iesu'n dod  
yn ôl addewid nef;  
Ei orsedd fyddo ym mhob bron,  
a'i fawl ar felys lef!

Mae'r Iesu'n dod i lwyr ryddhau  
y caeth o rywmau'r Fall;  
fe ddryllia ef y dorau pres  
a'i cyffion heyrn heb ball.

Mae'n dod i leddfyr galon friw,  
a nerthu'r enaid blin;  
bendithia ef y truant tlawd  
â gras ei Ddwylfol rin.

Dyrchafwn ni, Dywysog hedd,  
Hosanna yn ddi-lyth;  
boed atsain clod yn uchder nef  
i'th Enw sanctaidd byth.

---

(Lord Jesus Christ – 138/139)

NONP Volume 1. CD 4. Track 15. 4 verses

O! Iesu Grist,  
atom daethost ti'n  
un ohonom ni,  
Gwir Fab Duw.  
Glendid o'n holl bechodau gawn,  
cariad a phob rhyw nefol ddawn,  
canu dy glodydd, Iesu, wnawn  
Iesu byw.

O! Iesu Grist,  
dysg yn awr i ni

alw arnat ti,  
Gwir Fab Duw.  
Deuwn o'th flaen, eneidiau blin,  
deuwn at wledd o fara gwin,  
derbyn a wnawn dy nerthol rin,  
Iesu byw.

O! Iesu Grist,  
atom daethost ti'n  
un ohonom ni, Gwir Fab Duw.  
Marw ar groesbren Calfari,  
gorchfygu angau drosom ni,  
Ti biau'r clod a'r mawl a'r bri,  
Iesu byw.

O! Iesu Grist,  
deuaf atat ti,  
byw yn llwyr i ti, Gwir Fab Duw.  
Credaf mai gwir yw d'eiriau glân,  
gwn fod dy nerth fel nefol dân,  
llawen a grymus fydd fy nghân,  
Iesu byw.

---

O Jesus, I have promised  
NONP Vol 1. CD 5. tracks 14 & 15. 5 verses  
or Volume 2. CD 6. Track 19. 5 verses

O Iesu, mi addewais  
dy ffyddlon ganlyn di,  
bydd dithau yn Arweinydd  
a chyfaill byth i mi;  
nid ofnaf sŵn y frwydyr  
os byddi di gerllaw,  
ni chiliaf draw o'r llwybyr  
os caf i help dy law.

O bydd yn agos ataf –  
y byd yn agos sy;  
mi welaf ac mi glywaf  
ei demtasiynau lu;  
mae'r gelyn byth yn agos,  
o'm mewn ac oddi maes;  
tyrd ataf, dirion Iesu,  
rho imi nerth dy ras.

Llefara'n eglur wrthyf,  
llefara air i'm clyw,

uwch twrf fy chwantau ynfyd,  
uwch nwydau o bob rhyw;  
llefara i'm cysuro,  
a'm nerthu yn y byd;  
o gad im wrando arnat,  
fy Ngheidwad, ar bob prydd.

O Iesu, ti addewaist  
i bawb a'th ganlyn di,  
y cant fwynhau mewn gwynfyd  
dy bresenoldeb fry;  
addewais innau, Arglwydd,  
dy ganlyn hyd y bedd:  
o dyro ras, fy Ngheidwad,  
i aros yn dy hedd.

Gad imi weld y llwybrau  
a gerddaist yn ein byd,  
fy ngobaith wrth dy ganlyn  
sydd yn dy nerth bob prydd;  
o galw, arwain, cynnal,  
nes gorffen gyrfa'r llawr,  
a derbyn fi i'r nefoedd,  
fy Iôr a'm Ceidwad mawr.

---

Caneuon Ffydd 340

O llefara, addfwyn Iesu,  
mae dy eiriau fel y gwin,  
oll yn dwyn i mewn dangnefedd  
ag sydd o anfeidrol rin;  
mae holl leisiau'r greadigaeth,  
holl ddeniadau cnawd a byd,  
wrth dy lais hyfrataf, tawel  
yn distewi a mynd yn fud.

Ni all holl hyfrydwch natur,  
a'i melystra penna' i maes,  
fyth gymharu â lleferydd  
hyfryd, pur, maddeuol ras;  
gad im glywed sŵn dy eiriau,  
awdurdodol eiriau'r nef,  
oddi mewn yn creu hyfrydwch  
nad oes mo'i gyffelyb ef.

Dwed dy fod yn eiddo imi,  
mewn llythrennau eglur, clir,

tor amheuaeth sych, digysur,  
tywyll, dyrys, cyn bo hir;  
'rwy'n hiraethu am gael clywed  
un o eiriau pur y ne',  
nes bod ofon du a thristwch  
yn tragwyddol golli eu lle.

---

From heaven you came, helpless babe;  
NONP Volume 1. CD 3. Track 6. verses 4

O'r nef y daeth, Fab di-nam,  
i'r byd yn dlawd heb feddu dim,  
i weini'n fwyn ar y gwan;  
ei fywyd roes i ni gael byw.

*Hwn yw ein Duw,  
y Brenin Tlawd;  
fe'n geilw oll i'w ddilyn Ef;  
i fyw bob dydd  
fel pe'n anrheg wiw o'i law.  
Fe roddwn fawl  
i'r Brenin Tlawd.*

Ei ddagrau'n lli yn yr ardd;  
fy meichiau trwm gymerodd Ef.  
Ei galon fawr oedd yn drist;  
'd'ewyllys Di fo'n ben', medd Ef.

Gwel ddwylo briw, gwel ei draed;  
ei greithiau'n brawf o'i aberth drud.  
y tyner law leddfai boen,  
a rwygwyd gan yr hoelion llym.

Yn isel fryd gweini wnawn,  
a'i ddewis Ef yn Arglwydd pawb.  
Wrth estyn llaw at fy mrawd,  
cydnabod wnawn ein Brenin Tlawd.

---

O come, O come, Emmanuel  
NONP Volume 1. CD 10. Track 5. 3 verses  
O tyred di, Emanwêl,  
a datod rwybau Israel  
sydd yma'n alltud unig, trist  
hyd ddydd datguddiad Iesu Grist:  
*O cân, 0 cân:  
Emanwel ddaw ata ti,*

*0 Israel.*

0 tyrd, Flaguryn Jesse, nawr  
a dryllia allu'r gelyn mawr;  
rho fuddugoliaeth drwy dy wedd  
ar uffern ddofn ac ofn y bedd:

0 tyred, olau'r Seren Ddydd  
diddana ein calonnau prudd;  
gwasgara ddu gymylau braw  
a chysgod angau gilia draw:

O tyrd, Fab Dafydd, agor di  
yn llydain byrth y nef i ni;  
palmanta'r ffordd sy'n arwain fry  
a chau holl Iwybrau pechod hy:

0 tyred, Arglwydd, yn dy nerth  
tydi yr hwn ar Sinai serth  
gyhoeddaist gynt dy ddeddfau glân  
mewn mawredd a chymulau tan:

*Eryn Uadin o'r 18fed ganrif cyfJ D Vernon Lewis, 1879 -  
1970*

---

O Breath of life, come sweeping through us  
NONP Volume 1. CD 5. Track 8. 4 verses

O Ysbryd byw, dylifa drwom,  
bywha dy waith â grym y groes;  
O Ysbryd byw, tyrd, gweithia ynom,  
cymhwysa ni i her ein hoes.

O ddwyfol wynt, tyrd, plyg a thrin ni  
nes gweld ein hangen ger dy fron;  
ac achub ni â'th hael dosturi,  
bywha, cryfha; clyw'r weddi hon.

O gariad Crist, chwyth arnom eto,  
rho galon ac ewyllys lân;  
tyrd, gariad Crist, drachefn i'n huno,  
glanha'r holl dŷ â'th sanctaidd dân.

Bywha ni, Grist, mae'n sêl ar ddarfod,  
mor aeddfed wyn  
yw'r meysydd mawr;  
bywha ni, Grist, mae'r byd yn barod,  
rho inni ras i daenu'r wawr.

---

While shepherds watched  
NONP Volume 1. CD 10. Track 20. 6 verses  
Pan oedd bugeiliaid gyda'u praidd  
yn gorwedd ar y bryn,  
daeth angel Duw o'r t'wyllwch du  
fel golau disglair gwyn.

Wrth weld eu braw a'u dychryn hwy,  
"Nac ofnwch," meddai ef,  
"cans dwyn yr wyf lawenydd mawr  
newyddion da o'r nef.

"Ym Methlem ganwyd Ceidwad dyn,  
sef Crist yr Arglwydd Dduw,  
O dylwyth Dafydd Frenin gynt,  
i achub dynol ryw.

"A dyma'r arwydd fydd i chwi:  
cewch Faban yn ei grud  
mewn preseb llwm yn llety'r ych  
a'r gwellt amdano'n glyd!"

Yn sydyn gyda'r seraff roedd  
llu mawr o engyl glân  
yn llenwi'r nef, mewn moliant pur  
i Dduw, ar lafar gan:

"Gogoniant i'r Goruchaf Dduw,  
tangnefedd is y nef;  
i ddynion bydd ewyllys da  
byth mwy, o'i eni Ef."

---

NONP Volume 1. CD 7. Track 15. 3 verses  
Pob peth, ymhell ac agos,  
sy'n dangos Duw i'r byd,  
ei enw sydd yn aros  
ar waith ei law i gyd;  
efe a wnaeth y seren  
yn ddisglair yn y nen,  
efe a wnaeth y ddeilen  
yn wyrddlas ar y pren.  
*Ar ei drugareddau  
yr ydych oll yn byw;  
gan hynny dewch a llawenhewch,  
cans da yw Duw.*

Mae'r nefoedd a'i chymylau

o dan ei gadarn law,  
mae'n rhoddi'r heulwen olau,  
mae'n rhoddi gwllith a glaw;  
mae'r gwyntoedd oer y gaef  
yn ufudd iddo ef,  
ac ni ddaw un cynhaeaf  
ond drwy ragluniaeth nef.

Mae'n newid ei fendithion  
i gwrdd ag angen dyn;  
mae'n ddoeth ymhob dibenion,  
erioed ni fethodd un;  
ein bara sydd bob bore  
yn dod o'i ddwylo ef,  
a chynnal ein heneidiau  
wna byth â bara'r nef.

---

Pwy wnaeth y sêr uwch ben,  
y sêr uwch ben, y sêr uwch ben?  
Pwy wnaeth y sêr uwch ben,  
ein Harglwydd Dduw.

Pwy wnaeth yr adar mân,  
yr adar mân, yr adar mân,  
Pwy wnaeth yr adar mân,  
ein Harglwydd Dduw.

Pwy wneath y moroedd mawr,  
y moroedd mawr, y moroedd mawr,  
Pwy wneath y moroedd mawr,  
ein Harglwydd Dduw.

Pwy wnaeth y pysgod chwim,  
y pysgod chwim, y pysgod chwim,  
Pwy wnaeth y pysgod chwim,  
ein Harglwydd Dduw.

Pwy wnaeth y chi a fi,  
y chi a fi, y chi a fi,  
Pwy wnaeth y chi a fi,  
ein Harglwydd Dduw.

---

Holy, holy, holy. Lord God almighty!  
NONP Volume 1. CD 3. Track 15. verses 4  
Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd!

Dduw hollgyfoethog,  
gyda gwawr y bore dyrchafwn iti gân;  
Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd!  
mawr wyt a thrugarog –  
Duw mewn tri pherson –  
Trindod ddiwahân.

Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd!  
dy holl saint a'th folant.  
Bwriant eu coronau  
o flaen y fainc i lawr:  
engyl a Seraffiaid glân  
a'th ogoneddant  
beunydd a byth  
i dragwyddoldeb mawr.

Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd!  
twyllwch a'th orchuddia,  
ni all llygad gwael bechadur  
edrych ar dy wedd;  
Sanctaidd wyt yn unig;  
ti, Dduw, sydd orcha  
mewn clod, a gallu,  
cariad pur, a hedd.

Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd!  
Dduw hollgyfoethog,  
dy holl waith a'th fawl di  
mewn gogoneddus gân;  
Sanctaidd, Sanctaidd, Sanctaidd!  
mawr wyt a thrugarog –  
Duw mewn tri Pherson –  
Trindod ddiwahân.

---

Silent night, holy night,  
NONP Volume 1. CD 10. Track 14. 3 verses  
Tawel nos dros y byd,  
sanctaidd nos gylch y crud;  
gwyllion dirion yr oedd addfwyn ddau,  
Faban Duw gyda'r llygaid bach cau,  
Iesu, T'wysog ein hedd,  
Iesu, T'wysog ein hedd.

Sanctaidd nos gyda'i sêr;  
mantell fwyn, cariad pêr  
mintai'r bugail yn dod i fwynhau

Baban Duw gyda'r llygaid bach cau.  
Iesu T'wysog ein hedd  
Iesu T'wysog ein hedd

Tawel nos, Duw ei Hun  
ar y llawr gyda dyn;  
cerddi'r engyl, a'r Ne'n trugarhau;  
Baban Duw gyda'r llygaid bach cau,  
Iesu, T'wysog ein hedd.  
Iesu, T'wysog ein hedd.

---

CF 471. ton Hwiangerdd Mair  
Suai'r gwynt, suai'r gwynt  
wrth fyned heibio'r drws;  
a Mair ar ei wely gwair  
wyliai ei baban tlws:  
syllai yn ddwys yn ei w'ynneb llon,  
gwasgai Waredwr y byd at ei bron,  
canai ddiddanol gân:  
*“Cwsg, cwsg, f'anwylyd bach,  
cwsg nes daw'r bore iach,  
cwsg, cwsg, cwsg.”*

“Cwsg am dro, cwsg am dro  
cyn daw'r bugeiliaid hyn;  
a dod, dod i seinio clod,  
wele mae'r doethion syn:  
cwsg cyn daw Herod  
â'i gledd ar ei glun,  
cwsg, fe gei ddigon o fod ar ddi-hun,  
cwsg cyn daw'r groes i'th ran:  
*cwsg, cwsg, f'anwylyd bach,  
cwsg nes daw'r bore iach,  
cwsg, cwsg, cwsg.”*

---

Tyrd atom ni, O Grëwr pob goleuni,  
tro di ein nos yn ddydd;  
pâr inni weld holl lwybrau'r daith  
yn gloywi  
dan lewyrch gras a ffydd.

Tyrd atom ni, O Luniwr pob rhyw  
harddwch,  
rho inni'r doniau glân;

tyn ni yn ôl i afael dy hyfrydwch  
lle mae'r dragwyddol gân.

Tyrd atom ni, Arweinydd pererinion,  
dwg ni i ffordd llesâd;  
tydi dy hun sy'n tywys drwy'r  
treialon,  
O derbyn ein mawrhad.

Tyrd atom ni, O Dad ein Harglwydd  
Iesu,  
i'n harwain ato ef;  
canmolwn fyth yr hwn sydd gwaredu,  
bendigaid Fab y nef.

---

Lo! He comes with clouds descending;  
NONP 1.10.4.4

Wele'n dyfod ar gymylau  
Farnwr dyn a Brenin nef;  
myrdd myrddiynau sydd o'i Seintiau  
yn ei amgylchynu ef;  
Alelwia! Alelwia! Alelwia!  
Iesu a deyrnasa byth.

Dacw'r Barnwr yn ei gerbyd,  
utgyrn fyrdd yn canu o'i flaen;  
cydymgasgl y meirw cysglyd  
oll gerbron ei orsedd lân;  
Alelwia! Alelwia! Alelwia!  
Dyma ddydd gogoniant Crist.

Gorfoledda'r holl ffyddloniaid,  
a'u llawenydd fydd yn llawn;  
dyma'u Prynwr mawr bendigaid,  
a'u Gwardwr annwyl iawn;  
Alelwia! Alelwia! Alelwia!  
Byddant mwyach gydag ef.

Wele'n dyfod ar gymylau  
Farnwr dyn a Brenin nef;  
myrdd myrddiynau sydd o'i Seintiau  
yn ei amgylchynu ef;  
Alelwia! Alelwia! Alelwia!  
Iesu a deyrnasa byth.

When I survey the wondrous cross  
NONP Volume 1. CD 9. Track 9. 4 verses  
Wrth edrych, Iesu, ar dy Groes  
a meddwl dyfnder d'Angau loes,  
pryd hyn dibrisio'r wyf y byd,  
a'r holl ogoniant sy ynddo i gyd.

N'ad im ymddiried tra bwyf fyw  
ond yn dy Angau di, fy Nuw;  
dy boenau di a'th farwol glwy'  
gaiff fod yn ymfrost imi mwy.

Gwelwch yn nwylo'n Prynwr pur  
ac yn ei draed ef hoelion dur;  
edrychwch ar y wayw-ffon  
yn torri'r archoll dan ei fron.

Myfi aberthaf er dy glod  
bob eilun sydd o dan y rhod;  
ac wrth fyfyrion ar dy Waed  
fe gwmp pob delw dan fy nhraed.

---

NONP Volume 1. CD 9. Track 2. verses 5  
Ride on, ride on, in majesty

Ymlaen, ymlaen, frenhinol Un,  
“Hosanna!”, gwaedda'r dorf gytûn;  
d'anifail llwm ymlwybra 'mlaen  
a phalmwydd dan ei draed ar daen.

Ymlaen, ymlaen, frenhinol Frawd,  
yn wylaidd ar dy farwol rawd:  
i goncro pechod, codi'r graith,  
a thynnu colyn angau caeth.

Ymlaen, ymlaen, frenhinol Grist,  
yr engyl oll sy'n syllu'n drist  
o'r nefoedd mewn rhyfeddod mawr:  
fe deithi at d'angheuol awr.

Ymlaen, O Fab y Dyn di-fraw,  
mae'r olaf ffyrnig frwydyr draw;  
y Tad o uchder gorsedd nef  
sy'n disgwyl ei Eneiniog ef.

Ymlaen, ymlaen, frenhinol Oen,  
â gwylaidd rwysg ar lwybrau poen;

'n ôl gwyro pen dan farwol glwy',  
O Grist, mewn grym teyrnasa mwy.

---

NONP Volume 1. CD 10. Track 3. 5 verses  
It came upon the midnight clear

**Yn nhawel wlad Jwdea dlos  
yr oedd bugeiliaid glân  
yn aros yn y maes liw nos  
i wyllo'u defaid mân:  
proffwydol gerddi Seion gu  
gydganent ar y llawr  
i ysgafnhau y gyfnos ddu,  
gan ddisgwyl toriad gwawr.**

**Ar amnaid o'r uchelder fry  
dysenai angel gwyn,  
a safai 'nghanol golau gylch  
o flaen eu llygaid syn:  
dywedai, "Dwyn newyddion da  
yr wyf, i ddynol-ryw;  
fe anwyd i chwi Geidwad rhad,  
sef Crist yr Arglwydd Dduw."**

**Ac ebrwydd unai nefol lu  
mewn hyfryd gytgan bêr  
nes seiniai moliant ar bob tu  
o'r ddaear hyd y sêr:  
"Gogoniant yn y nefoedd fry  
i Dduw'r goruchaf Un,  
tangnefedd ar y ddaear ddu,  
ewyllys da i ddyn."**

**Rhoed newydd dant yn nhelyn nef  
pan anwyd Iesu Grist,  
a thelyn aur o lawen dôn  
yn llaw pechadur trist:  
telynau'r nef sy'n canu nawr,  
"Ewyllys da i ddyn,"  
a chaned holl delynau'r llawr  
ogoniant Duw'n gyân.**

---

Jesu shall reign where're the sun  
NONP Volume 1. CD 4. Track 5. verses 5  
**Yr Iesu a deyrnasa'n grwn**

**o godiad haul hyd fachlud hwn;  
ei deyrnas â o fôr i fôr,  
tra fyddo llewyrch haul a lloer.**

**Lle y teyrnaso, bendith fydd;  
y caeth a naid o'i rwymau'n rhydd,  
y blin gaiff fythol esmwythâd.  
a'r holl rai clwyfus iechyd rhad.**

**Rhoed pob creadur, yn ddi-lyth,  
neilltuol barch i'r Brenin byth:  
angylion, molwch ef uwchben,  
a'r ddaer, dweded byth, Amen!**

---

NONP Volume 2. CD 2. Track 11. 5 verses  
**Ysbryd Sanctaid, dyro'r golau  
ar dy eiriau di dy hun;  
agor inni'r Ysgrythurau,  
dangos inni Geidwad dyn.**

**O sancteiddia'n myfyrdodau  
yn dy wirioneddau byw;  
crea ynom ddymuniadau  
am drysorau meddwl Duw.**

**Gweld yr Iesu, dyna ddigon  
ar y ffordd i enaid tlawd;  
dyma gyfaill bery'n ffyddlon,  
ac a lŷn yn well na brawd.**

---

Spirit of the living God, fall afresh on me  
NONP Volume 1. CD 6. Track 13. 2 verses  
**Ysbryd y tragwyddol Dduw,  
disgyn arnom ni;  
Ysbryd y tragwyddol Dduw,  
disgyn arnom ni:  
plyg ni, trin ni, gloch ni, cod ni:  
Ysbryd y tragwyddol Dduw,  
disgyn arnom ni.**

---

Sing to the Lord / Canwch i'r Arglwydd  
Hymns in Welsh and English  
eg 88/89 Hymn in English and Welsh  
in Canwch i'r Arglwydd  
Volume.CD.track.number of verses

**Agorodd Iesu'n wir** 1.7.6.4  
Moscow – Thou whose almighty word  
A celebration of Christ's victory  
Canwch i'r Arglwydd 206

Alleluia, sing to Jesus 88/89 1.3.4

A new commandment I give unto you  
90/91 Vol2 1.13.4

**Arglwydd, gad im dawel orffwys**  
2.2.14.3 Abbot's Leigh  
Father, Lord of all creation  
Canwch i'r Arglwydd 209

Be still, for the presence of the Lord  
**Distewch, cans mae presenoldeb Crist**  
1.1.16.3 Caneuon Ffydd 600

Bind us together, Lord 92/93 1.20.3

Blest are the pure in heart 94/95 2.1.4

Breathe on my, Breath of God 96/97  
2.3.4

**Bywha dy waith. O Arglwydd Mawr**  
1.6.8.3 Canwch i'r Arglwydd 215  
also Fulda 1.7.13.6

Colours of day 98/99 2.11.3

Come, Holy Ghost, our souls inspire  
100/101 Vol 2 2.6.5

**Da yw bod wrth draed yr Iesu**  
2.3.15.2 Canwch i'r Arglwydd 223

Dear Lord and heavenly Father ???

(A patriotic hymn for Wales)  
Finlandia NONP Volume 1. CD 1. Track 17. 3 verses

**Dros Gymru'n gwlad,**

**Duw, teyrnasa ar y ddaear**  
1.4.9.3 Mannheim  
Lead us, heavenly Father, lead us  
Canwch i'r Arglwydd 229

repeat the last but one line

**Dyma Feibl annwyl Iesu**

1.7.16.3 to the tune of  
What a friend we have in Jesus  
Canwch i'r Arglwydd 230

**Dyma gariad fel y moroedd**

1.1.3.4 or C13.3 Hyfrydol  
Canwch i'r Arglwydd 231

Father, we adore you 102/103 Vol 2  
2.16.3

For the beauty of the earth 108/109 Vol  
1.3.5.5

Forty days and forty nights 110/111  
8.10.6

From heaven you came, helpless babe  
not in Canwch i'r Arglwydd 1.3.6.4  
Caneuon Ffydd 276

Glory be to Jesus 112/113 Vol 2 3.7.8

Guide me, O thou great Redeemer /  
Arglwydd, arwain drwy'r anialwch  
1.3.11.3

**Gwawr wedi hirnos** 1.5.3.3 Bunessan  
Canwch i'r Arglwydd 237

**Gwelir Iesu'n ogoneddus**

2.7.15.8 Pange lingua  
2.7.16.8 St Thomas (Webbe)

repeat the last but one line  
Canwch i'r Arglwydd 238

Hark the glad sound! 116/117 9.21.4

Holy, holy, holy, Lord God Almighty  
120/121 3.15.4

How lovely on the mountains 122/123  
3.17.4

I need thee every hour 124/125 Vol2  
4.14.5

Jesus calls us o'er the tumult 126/127  
1.4.3.5

Jesus Christ is risen today 128/129  
8.13.3

Jesus is Lord, Creation's voice proclaims  
it 130/131 4.4.3

Jesus shall reign where'er the sun  
132/133 4.5.5

Let saints on earth in concert sing  
134/135 Vol2 5.8.5

Let there be love shared among us  
2.5.9.1 Caneuon Ffydd 871

Lo! He comes with clouds descending  
136/137 10.4.4

Lord Jesus Christ 138/139 4.15.4

Lord of all hopefulness 140/141 4.16.4  
irregular - not easy

Lord, thy word abideth 142/143 4.18.6

Lord, who in thy perfect wisdom  
144/145 4.20.4

Loving Shepherd of thy sheep 146/147  
4.21.4

**Mae Duw yn llond pob lle**

A 1.2 Rhosymedre  
Canwch i'r Arglwydd 247

(A patriotic hymn for Wales)  
Hyfrydol / Blaenwern

**Molwn di, O Dduw ein tadau,**

Morning has broken 148/149 5.3.3

O come, O come, Emmanuel 150/151  
10.7.5

O God, our help in ages past 152/153  
5.12.6

O Jesus, I have promised 154/155 5.14.5  
/ 5.15.5 / Vol 2 6.19.5

O Lord my God - How great thou art!  
156/157 5.16.4

Open our eyes, Lord 158/159 Vol 2  
7.3.1

O thou, who at thy Eucharist didst pray  
160/161 Vol 2 7.5.4

O worship the King 162/163 5.22.6

Praise to the holiest in the height  
166/167 6.4.6 / 6.5.6 / Vol 2.7.10.6

Ride on, ride on in majesty 168/169  
9.2.5

Seek ye first the kingdom of God 172/73  
Vol 2 7.14.3

Soldiers of Christ, arise 174/175 6.12.6

Take my life, and let it be 178/179 Vol 2  
8.4.6

Tell out my soul 180/181 Vol 1.6.19.4

The strife is o'er the battle done 184/185  
9.6.4

There is a green hill 186/187 9.5.5

Thine be the glory 188/189 9.7.3

Think of a world without any flowers  
190/191 Vol 2 8.19.3

This is the day 192/193 Vol 2 8.21.3

Thy hand, O God, has guided 196/197  
7.8.5 English 3 verses. Welsh 5 verses

To God be the glory! 198/199 7.10.3

We love the place, O God 200/201  
7.14.7

We plough the fields and scatter  
1.7.15.3 Caneuon Ffydd 130

When I survey the wondrous Cross  
202/203 9.9.4

**Cariad Iesu Grist,  
cariad Duw yw ef:  
cariad mwya'r byd,  
cariad mwya'r nef.**

**Gobaith plant pob oes,  
gobaith dynol-ryw,  
gobaith daer a nef  
ydyw cariad Duw.**

**Bythol gariad yw  
at y gwael a'r gwan,  
dilyn cariad Duw  
wnelom ymhob man.**

**Molwn gariad Duw  
ar bob cam o'r daith,  
canu iddo ef  
fydd yn hyfryd waith.**

---

**Dowch, blant bychain,  
dowch i foli'r Iesu,  
cariad yw, cariad yw;  
dowch, blant bychain,  
dowch i foli'r Iesu,  
cariad yw, cariad yw.**

**Daeth i'r byd bob cam  
i lawr o'r nefoedd  
er ein mwyn, er ein mwyn;  
daeth i'r byd bob cam  
i lawr o'r nefoedd  
er ein mwyn, er ein mwyn.**

**Fe gymerodd blant bach Galilea  
yn ei gôl, yn ei gôl;  
fe gymerodd blant bach Galilea  
yn ei gôl, yn ei gôl.**

**Do, bu farw draw ar ben Calfaria  
drosom ni, drosom ni;  
do, bu farw draw ar ben Calfaria  
drosom ni, drosom ni.**

Ond ar fore'r trydydd dydd cyfododd,  
daeth o'r bedd, daeth o'r bedd;  
ond ar fore'r trydydd dydd cyfododd,  
daeth o'r bedd, daeth o'r bedd.

Canu iddo heddiw mae angylion  
yn y nef, yn y nef;  
canwn ninnau iddo a un galon,  
iddo ef, iddo ef.

---

*(God who made the earth – 5 verses)*

Duw a wnaeth y byd,  
y gwynt a'r storm a'r lli,  
ond nid yw e'n rhy fawr  
i'n caru ni.

Duw a wnaeth y sêr  
sy'n sgleinio acw fry,  
ond nid yw e'n rhy bell  
i'n caru ni.

Duw a ddaeth un tro  
i'w fyd, daeth yma'n fyw,  
a dangos wnaeth i ni  
mai cariad yw.

---

Iesu tirion, gwêl yn awr  
blentyn bach yn plygu i lawr:  
wrth fy ngwendid trugarha,  
paid â'm gwrthod, Iesu da.

Carwn fod yn eiddot ti;  
Iesu grasol, derbyn fi;  
gad i blentyn bach gael lle,  
drwy dy ras, yn nheyrnas ne'.

Carwn fod fel ti dy hun,  
meddu calon ar dy lun;  
addfwyn, tirion iawn wyt ti,  
ysbryd cariad rho i mi.

Dysg im wneuthur heb nacâd  
'wyllys Duw, fy nefol Dad,

n'ad im ddigio Ysbryd Duw,  
er d'ogoniant gad im fyw.

---

Pwy wnaeth y sêr uwch ben,  
y sêr uwch ben, y sêr uwch ben?  
Pwy wnaeth y sêr uwch ben,  
ein Harglwydd Dduw.

Pwy wnaeth yr adar mân,  
yr adar mân, yr adar mân,  
Pwy wnaeth yr adar mân,  
ein Harglwydd Dduw.

Pwy wneath y moroedd mawr,  
y moroedd mawr, y moroedd mawr,  
Pwy wneath y moroedd mawr,  
ein Harglwydd Dduw.

Pwy wnaeth y pysgod chwim,  
y pysgod chwim, y pysgod chwim,  
Pwy wnaeth y pysgod chwim,  
ein Harglwydd Dduw.

Pwy wnaeth y chi a fi,  
y chi a fi, y chi a fi,  
Pwy wnaeth y chi a fi,  
ein Harglwydd Dduw.

---

Glory be to Jesus,  
who, in bitter pains,  
poured for me the life-blood  
from his sacred veins.

Grace and life eternal  
in that blood I find;  
blest be his compassion  
infinitely kind.

Blest through endless ages  
be the precious stream,  
which from endless torments  
did the world redeem.

Abel's blood for vengeance  
pleaded to the skies;  
but the blood of Jesus  
for our pardon cries.

Oft as it is sprinkled  
on our guilty hearts,  
Satan in confusion  
terror-struck departs;

Oft as earth exulting  
wafts its praise on high,  
angel-hosts rejoicing  
make their glad reply.

Lift ye then your voices;  
swell the mighty flood;  
louder still and louder  
praise the precious blood.

---

There is a green hill far away,  
without a city wall,  
where the dear Lord was crucified,  
who died to save us all.

We may not know, we cannot tell,  
what pains he had to bear,  
but we believe it was for us  
he hung and suffered there.

He died that we might be forgiven,  
he died to make us good,  
that we might go at last to heaven,  
saved by his precious blood.

There was no other good enough  
to pay the price of sin;  
he only could unlock the gate  
of heaven, and let us in.

O dearly, dearly has he loved,  
and we must love him too,  
and trust in his redeeming blood,  
and try his works to do.

---

ond sy'n cadw cyfraith Duw,  
ac yn dwfn fyfyrion arni  
beunydd beunos tra bo byw.

Bydd fel coeden wedi'i phlannu  
ar lan dŵr, yn dwyn ffrwyth da  
yn ei phryd, a'i dail heb wywo.  
Llwydda ym mhob peth a wna.

Nid fel hynny y drygionus,  
ond fel us a yrr y gwynt,  
yn ymdroelli yn yr awyr  
cyn diflannu ar ei hynt.

Felly, ni saif y drygionus  
yn y farn a ddaw ryw ddydd,  
ac yng nghynulleidfa'r cyfiawn  
pechaduriaid byth ni bydd.

Y mae'r Arglwydd da yn gwyllo  
ffordd y cyfiawn ar bob llaw,  
ond mae ffordd y rhai drygionus  
yn diflannu a darfod draw.

#### Salmau

- 1 87 87 double Marching  
2 76.76.D Aurelia  
(The Church's one foundation)  
8 76.76.D Aurelia  
(The Church's one foundation)  
19 10.10.10.10 Ellers  
23 Dominus Regit Me 87 87  
(The King of love my shepherd is)  
27 14.14.4.7.8 Lobe den Herren  
1.6.6.4  
29 74.74.D Gwalchmai 1.4.8.3  
43 65. 65 Caswall 2.3.7.8  
51 87 87 Love Divine  
100  
119.9-16 76. 76. D Penlan

#### Salm 1. 87 87 double Marching

**Gwyn ei fyd y sawl na ddilyn  
gyngor drwg, na loetran chwaith  
ar y ffordd lle y tramwya  
pechaduriaid ar eu taith,  
na chydeistedd â gwatwarwyr,**

Salm 2. 76.76.D Aurelia  
NONP 1.6.20.4 verses

**Paham y mae'r cenedloedd  
yn derfysg oll i gyd,  
a'r bobloedd yn cynllwynio  
yn ofer ledled byd?  
Brenhinoedd, llywodraethwyr,  
yn trefnu byddin gref  
yn erbyn Duw, yr Arglwydd,  
a'i fab enciniog ef.**

**"Fe ddrylliwn ni eu rhwymau  
a'u rhaffau," yw eu cri;  
ond chwerthin y mae'r Arglwydd,  
a'u gwatwar yn eu bri.  
Llefara yn ei ddieter,  
a'u llenwi oll â braw:  
"Gosodais i fy mrenin  
ar fynydd Seion draw."**

**"Adroddaf," meddai'r brenin,  
"ddatganiad Duw i mi:  
'Fi a'th genhedlodd heddiw,**

yn wir, fy mab wyt ti.  
Rhof iti'n etifeddiaeth  
y gwledydd yn ddi-lai.  
Fe'u drylli â gwialen haearn  
a'u malu fel llestr clai."

Yn awr, frenhinoedd, pwyllwch,  
a rowch, heb dywallt gwaed,  
wasanaeth gwiw i'r Arglwydd;  
cusanwch oll ei draed.  
Rhag iddo ffromi a'ch difa,  
cans chwim yw llid Duw'r nef.  
Gwyn fyd y rhai sy'n gwneuthur  
eu lloches ynddo ef.

Salm 8 76.76.D Aurelia  
(The Church's one foundation)  
O Arglwydd, mor ardderchog  
dy enw drwy'r holl fyd.  
Gosodaist dy ogoniant  
goruwch y nef i gyd.  
Ond codaist fawl babanod,  
plant sugno bychain, gwan,  
i'th warchod rhag d'elynion  
a'u trechu yn y man.

Pan welaf waith dy fysedd  
wrth edrych tua'r ne':  
yr haul a'r sêr a'r lleuad,  
a roddaist yn eu lle,  
"Pwy ydwyf fi," gofynnaf,  
"a phwy yw dynol ryw,  
i ti ofalu amdanom,  
a'n cofio, f'Arglwydd Dduw?"

Ac eto, ti a'n gwnaethost  
ychydych bach islaw  
y duwiau; rhoist awdurdod  
i ni dros waith dy law.  
Coronaist ni â mawredd,  
a gosod dan ein traed,  
er ein mwynhad a'n defnydd  
y cyfan oll a wnaed.

Yr ychen yn y meysydd,  
y defaid oll a'r myllt,

a'r anifeiliaid rheibus,  
y pysg a'r adar gwyllt,  
a phopeth sy'n tramwyo  
trwy'r dyfroedd oll i gyd,  
O Arglwydd, mor ardderchog  
dy enw drwy'r holl fyd.

Rhan o Salm 19 oddi wrth Salmau  
Cân Newydd 2008 i'r dôn *Ellers*

Mae cyfraith berffaith Duw'n dwyn  
egni'n ôl;  
tystiolaeth sicr Duw'n gwneud doeth  
o'r ffôl.

Mae deddfau cywir Duw yn  
llawenhau;  
gorchymyn Duw'n goleuo llygaid cau.

Ofn Duw sydd lân, a phery byth yn ir.  
Mae barnau Duw yn gyfiawn ac yn wir.  
Hyfrytach ynt nag aur neu drysor cêl,  
melysach na diferion diliau mêl.

Rhybuddiant ni; o'u cadw gwobr a  
fydd.  
Glanha fi oddi wrth fy meiau cudd.  
Rhag pechod hyf, a yrr dy was ar wŷyr,  
O cadw fi, rhag iddo 'nhrechu'n  
llwyr.

Caf yna fod heb fain a phechod mawr.  
Boed geiriau 'ngenau wrth dy fodd yn awr  
a'm holl feddyliau'n gymeradwy i ti,  
O Arglwydd Dduw, fy nghraig am  
prynwr i.

Salm 23 NONP 2. 8. 11. 6 verses  
Dominus Regit Me  
(The King of love my shepherd is)

Yr Arglwydd yw fy mugaill i,  
ac ni bydd eisiau arnaf.  
Mewn porfa fras gorffwyso a gaf;  
ger dyfroedd braf gorweddfaf.

Mae yn f'adfywio yn ddi-frys  
a'm tywys yn garuaidd.  
Hyd ffyrdd cyfiawnder  
mae'n fy nwyn,  
er mwyn ei enw sanctaidd.

Mewn dyffryn tywyll du ni chaf  
nac anaf byth na dolur;  
a thi o'm blaen, fy fydd dy ffon  
a'th wialen dirion gysur.

Arlwyl fwrdd o'm blaen, a'm llu  
gelynion i yn gwyllo,  
eneinio 'mhen ag olew glân,  
mae 'nghwpan yn gorlifo.

Daioni a thrugaredd fydd  
o'm hôl bob dydd o'm bywyd;  
ar hyd fy oes mi fyddaf byw  
yn nhŷ fy Nuw mewn gwynfyd.

Psalm 27 14.14.4.7.8  
Lobe den Herren 1.6.6.4

Duw yw f'achubiaeth a'm golau,  
rhag pwy byth yr ofnaf?  
Ef yw cadernid fy mywyd,  
rhag pwy y dychrynaf?  
Pan ddaw'r di-dduw  
fel pe i'm llyncu yn fyw,  
baglant wrth ruthro amdanaf.

Pe deuai byddin i'm herbyn,  
ni fyddwn yn ofnus.

Pe deuai rhyfel i'm rhan,  
mi a fyddwn hyderus.

Un peth gan Dduw  
a geisiais i, sef cael byw  
byth yn ei dŷ tangnefeddus.

Yno cawn edrych am byth  
ar hawddgarwch yr Arglwydd,  
a gofyn iddo am gyngor,  
cans yn nydd enbydrwydd

Fe'm cyfyd i  
ar graig o afael y lli.  
Cuddia fi-ym mhabell ei sicrwydd.

Cyfyd fy mhen i uwchben  
fy ngelynion yn ebrwydd.  
Offrymaf finnau'n ei deml  
aberthau hapusrwydd.

Llawen fy llef  
pan blygaf ger ei fron ef.  
Canaf, canmolaf yr Arglwydd.

Gwrando fi, Arglwydd,  
pan lefaf, a dyro im ateb;  
cans dywedais amdanat ti,  
"Ceisia ei wyneb".

Pe fuost ti  
O Dduw'n waredwr i mi.  
Paid â throï i ffwrdd  
mewn gwylltineb.

Derbyniai Duw fi  
hyd yn oed pe bai fy rhieni  
yn cefnu arnaf. O Arglwydd,  
dysg di dy ffordd imi.

I'r llwybr da  
arwain fi, cans fe wna  
fy ngelyn imi gamwri.

Caf weld daioni yr Arglwydd,  
mi wn hyn i sicrwydd,  
yn nhir y byw. Disglwyl dithau  
wrth Dduw a'i berffeithrwydd.

Disgwyl, a bydd  
wrol dy galon mewn ffydd.  
A disgwyl di wrth yr Arglwydd.

Salm 29 74.74.D Gwalchmai  
NONP Volume 1.CD 4. Track 8. 3 verses

Molwch, dduwiau, yn ddidaw  
enw'r Arglwydd.  
Plygwch iddo ef pan ddaw  
mewn sancteiddrwydd.  
Mae ei lais uwch cenllif gref  
yn taranu.

Duw'r gogoniant ydyw ef  
sy'n llefaru.

Mawr a nerthol lef yw hon:

dryllia'r cedrwydd.  
Dryllio cedrwydd Lebanon  
y mae'r Arglwydd.  
Gwna i fynydd Lebanon  
ac un Sirion  
neidio a llamu ger ei fron  
fel dau eidion.

Fflachiai'i lais fel mellt ar daith,  
ac mae'n peri  
i anialwch Cades faith  
grynu ac ofni.  
Mae'r ewigod cyn eu pryd  
oll yn llydnu.  
Yn ei deml mae'r bobl i gyd  
yn mawrygu.

Eistedd y mae'r Arglwydd Dduw  
uwch y dyfroedd  
ar ei orsedd. Brenin yw  
yn ei oesoedd.  
Rhodded ef i'w bobl byth mwy  
nerth a mawredd!  
A bendithied hefyd hwy  
â thangnefedd!

Salm 43 65. 65 Caswall  
NONP Volume 2. CD 3. Track 7. 8 verses

Cyfiawnha fi, Arglwydd,  
f'achos dadlau di;  
rhag rhai drwg, annheyrngar  
tyrd i'm gwared i.

Ti yw fy amddiffyn.  
Pam fy ngwrthod i?  
Pam fy rhoi dan orthrwm?  
Pam tristáu fy nghri?

Anfon dy wirionedd  
a'th oleuini i mi.  
Dygant hwy fi i fynydd  
dy lân drigfan di.

Yna dof at d'allor.  
Fy llawenydd yw  
dy foliannu â'r Delyn,

ti, O Dduw, fy Nuw.

Na thristâ, fy enaid,  
ac na thyrfâ'n awr!  
Molaf fy Nuw eto,  
fy ngwaredydd mawr.

Salm 51 to 'Love Divine'

Bydd drugarog wrthyf, Arglwydd,  
yn ôl dy ffyddlondeb drud;  
golch fi'n lân o'm holl euogrwydd,  
a glanha fi o'm beiau i gyd.

Gwn fy mod i wedi pechu,  
Arglwydd, yn dy erbyn di.  
Cyfiawn wyt yn fy nedfrydu,  
cywir yn fy marnu i.

Fe'm cenhedlwyd mewn drygioni,  
ganwyd fi i ddrygau'r byd;  
ond gwirionedd a ddymini  
oddi mewn i mi o hyd.  
Felly, dysg i mi ddoethineb;  
pura ag isop fi yn lân;  
golch fi nes bod imi burdeb  
gwynnach nag yw'r eira mân.

Llanw fi, a ddrylliaist gynnau,  
â gorfoledd llon yn awr.  
Cuddia d'wyneb rhag fy meiau,  
a dileu 'mhechodau mawr.

Crea ynof galon lanwaith,  
ysbryd cadarn rho i mi;  
a phaid byth â'm bwrw ymaith,  
na nacáu im d'ysbryd di.

Rho im eto orfoleddu  
yn d'achubiaeth; rho i mi  
ysbryd ufudd, a chaf ddysgu  
i droseddwy'r dy ffyrdd di.

Os gwaredi fi rhag angau,  
traethaf dy gyfiawnder glân.  
Arglwydd, agor fy ngwefusau,  
a moliannaf di ar gân.

Salm 84. NONP 1. CD 2. Tr 7. 5 verses

Dduw y Llwoedd, dy breswylfod,  
O mor brydferth yw!  
Rwy'n hiraethu hyd at ddarfod  
am gynteddau Duw.  
Y mae'r cwbl ohonof fi  
yn gweiddi am yr Arglwydd byw.

Adar to, a'r wennol dirion  
a gânt yno nyth;  
wrth d'allorau magant gywion.  
Gwyn eu byd am byth  
bawb sy'n trigo yn dy dŷ,  
yn canu mawl i ti'n ddi-lyth.

Gwyn eu byd y pererinion;  
cedwi hwy rhag braw.  
Fe gânt ddyffryn Baca'n ffynnon  
dan y cynnar law.  
Ânt o nerth i nerth, nes dod  
i wyddfod Duw yn Seion draw.

Arglwydd Dduw y Llwoedd, gwranddo  
ar fy ngweddi i.  
Edrych ar ein tarian; dyro  
Ffafr i'n brenin ni.  
Gwell na blwyddyn gartef fydd  
un dydd yn dy gynteddau di.

Gwell yw sefyll y tu allan  
yno na chael byw  
yn nhai'r drwg; cans haul a tharian  
yw yr Arglwydd Dduw.  
Gwyn ei fyd y sawl y bo  
ei hyder ynddo; dedwydd yw.

Salm 119.9-16  
Tôn: Penlan 76. 76. D  
Salmau Cân Newydd 2008

Pa fodd y ceidw'r ifainc  
eu llwybrau'n lân fel ôd?  
Trwy gadw'r d'air, O Arglwydd,  
fe'th geisiais â'm holl fod.  
Na ad i mi byth wyro  
oddi wrth d'orchmynion di.  
Dy eiriau a drysorais

o fewn fy nghalon i.

Rwyt fendigedig, Arglwydd;  
dy ddeddfau ddysg i mi.  
Bûm droeon yn ailadrodd  
holl farnau d'enu di.  
Yn dy farnedigaethau  
bûm lawen iawn fy mryd;  
roedd fy llawenydd ynddynt  
uwchlaw holl gyfoeth byd.

Fe fyddaf yn myfyrio  
ar dy ofynion di,  
yn cadw dy holl lwybrau  
o flaen fy llygaid i.  
Yr wyf yn ymhyfrydu  
yn neddfau pur y nef,  
ac am dy air, O Arglwydd,  
byth nid anghofiaf ef.

A Welsh metrical version of *Gloria in  
Excelsis*

Clod yn y goruchaf  
foed i Dduw y nef.  
Heddwch rhwng y bobloedd  
fo yn gadwyn gref:  
seiniwn ein gorfoledd  
yn gytûn yn awr,  
emyn ein llawenydd  
fo i'r Brenin Mawr.

Atgyfododd Iesu  
yn waredwr byd,

gyda'r Sanctaidd Ysbryd,  
Tri sy'n Un o hyd:  
Oen y Pasg a laddwyd  
dros ein pechod ni.  
Yn dy fawr drugaredd  
gwrando ar ein cri.

Ti, O Grist, yw'n gobaith,  
rhown i Ti'r mawrhad.  
Ti sy'n eiriol trosom  
ar ddeheulaw'r Tad:  
unwn yn y moliant  
gyda'r nef ei hun,  
i ti mewn gogoniant  
ddwyfol Mab y Dyn.

another metrical Sanctus yn  
Gymraeg to 'Blaenwern'

Sanctaidd, sanctaindd, sanctaidd  
Arglwydd,  
Dduw'r angylion uchel fry:  
Llawn yw'r nef a llawn yw'r ddear  
O'th ogoniant, Arglwydd cu.  
Clywch "Hosanna" gan blant  
bychain,  
Gwŷr a gwagedd yn gytŷn,  
Clywch fendigo'r Un sy'n dyfod,  
Air y Tad, Fab yn Dyn.

## Rhai o'r eitemau o Salmau Cân Newydd 2008

Salm 1. 87 87 double Marching

Gwyn ei fyd y sawl na ddilyn  
gyngor drwg, na loetran chwaith  
ar y ffordd lle y tramwya  
pechaduriaid ar eu taith,

na chydeistedd â gwatwarwyr,  
ond sy'n cadw cyfraith Duw,  
ac yn dwfn fyfyrion arni

beunydd beunos tra bo byw.

Bydd fel coeden wedi'i phlannu  
ar lan dŵr, yn dwyn ffrwyth da  
yn ei phryd, a'i dail heb wywo.  
Llwydda ym mhob peth a wna.

Nid fel hynny y drygionus,  
ond fel us a yrr y gwynt,  
yn ymdroelli yn yr awyr  
cyn diflannu ar ei hynnt.

Felly, ni saif y drygionus  
yn y farn a ddaw ryw ddydd,  
ac yng nghynulleidfau'r cyfiawn  
pechaduriaid byth ni bydd.

Y mae'r Arglwydd da yn gwylio  
ffordd y cyfiawn ar bob llaw,  
ond mae ffordd y rhai drygionus  
yn diflannu a darfod draw.

Salm 2. 76.76.D Aurelia  
NONP 1.6.20.4 verses

Paham y mae'r cenedloedd  
yn derfysg oll i gyd,  
a'r bobloedd yn cynllwynio  
yn ofer ledled byd?  
Brenhinoedd, llywodraethwyr,  
yn trefnu byddin gref  
yn erbyn Duw, yr Arglwydd,  
a'i fab eneiog ef.

"Fe ddrylliwn ni eu rhwymau  
a'u rhaffau," yw eu cri;  
ond chwerthin y mae'r Arglwydd,  
a'u gwatwar yn eu bri.  
Llefara yn ei ddieter,  
a'u llenwi oll â braw:  
"Gosodais i fy mrenin  
ar fynydd Seion draw."

"Adroddaf," meddai'r brenin,  
"ddatganiad Duw i mi:  
'Fi a'th genhedlodd heddiw,  
yn wir, fy mab wyt ti.  
Rhof iti'n etifeddiaeth

y gwledydd yn ddi-lai.  
Fe'u drylli â gwialen haearn  
a'u malu fel llestr clai."

Yn awr, frenhinoedd, pwyllwch,  
a rowch, heb dywallt gwaed,  
wasanaeth gwiw i'r Arglwydd;  
cusanwch oll ei draed.  
Rhag iddo ffromi a'ch difa,  
cans chwim yw llid Duw'r nef.  
Gwyn fyd y rhai sy'n gwneuthur  
eu lloches ynddo ef.

Salm 8 76.76.D Aurelia  
(The Church's one foundation)

O Arglwydd, mor ardderchog  
dy enw drwy'r holl fyd.  
Gosodaist dy ogoniant  
goruwch y nef i gyd.  
Ond codaist fawl babanod,  
plant sugno bychain, gwan,  
i'th warchod rhag d'elynyon  
a'u trechu yn y man.

Pan welaf waith dy fysedd  
wrth edrych tua'r ne':  
yr haul a'r sêr a'r lleuad,  
a roddaist yn eu lle,  
"Pwy ydwyf fi," gofynnaf,  
"a phwy yw dynol ryw,  
i ti ofalu amdanom,  
a'n cofio, f'Arglwydd Dduw?"

Ac eto, ti a'n gwnaethost  
ychydych bach islaw  
y duwiau; rhoist awdurdod  
i ni dros waith dy law.  
Coronaist ni â mawredd,  
a gosod dan ein traed,  
er ein mwynhad a'n defnydd  
y cyfan oll a wnaed.

Yr ychen yn y meysydd,  
y defaid oll a'r myllt,  
a'r anifeiliaid rheibus,  
y pysg a'r adar gwyllt,

a phopeth sy'n tramwyo  
trwy'r dyfroedd oll i gyd,  
O Arglwydd, mor ardderchog  
dy enw drwy'r holl fyd.

Salm 23 NONP 2. 8. 11. 6 verses  
Dominus Regit Me  
(The King of love my shepherd is)

Yr Arglwydd yw fy mugail i,  
ac ni bydd eisiau arnaf.  
Mewn porfa fras gorffwyso a gaf;  
ger dyfroedd braf gorweddaf.

Mae yn f'adfywio yn ddi-frys  
a'm tywys yn garuaidd.  
Hyd ffyrdd cyfiawnder  
mae'n fy nwyn,  
er mwyn ei enw sanctaidd.

Mewn dyffryn tywyll du ni chaf  
nac anaf byth na dolur;  
a thi o'm blaen, fy fydd dy ffon  
a'th wialen dirion gysur.

Arlwyfi fwrdd o'm blaen, a'm llu  
gelynyon i yn gwylio,  
eneinio 'mhen ag olew glân,  
mae 'nghwpan yn gorlifo.

Daioni a thrugaredd fydd  
o'm hôl bob dydd o'm bywyd;  
ar hyd fy oes mi fyddaf byw  
yn nhŷ fy Nuw mewn gwynfyd.

Psalm 27 14.14.4.7.8  
Lobe den Herren 1.6.6.4

Duw yw f'achubiaeth a'm golau,  
rhag pwy byth yr ofnaf?  
Ef yw cadernid fy mywyd,  
rhag pwy y dychrynaf?

Pan ddaw'r di-dduw  
fel pe i'm llyncu yn fyw,  
baglant wrth ruthro amdanaf.

Pe deuai byddin i'm herbyn,  
ni fyddwn yn ofnus.

Pe deuai rhyfel i'm rhan,  
mi a fyddwn hyderus.

Un peth gan Dduw  
a geisiais i, sef cael byw  
byth yn ei dŷ tangnefeddus.

Yno cawn edrych am byth  
ar hawddgarwch yr Arglwydd,  
a gofyn iddo am gyngor,  
cans yn nydd enbydrwydd  
Fe'm cyfyd i  
ar graig o afael y lli.  
Cuddia fi-ym mhabell ei sicrwydd.

Cyfyd fy mhen i uwchben  
fy ngelynion yn ebrwydd.  
Offrymaf finnau'n ei deml  
aberthau hapusrwydd.  
Llawen fy llef  
pan blygaf ger ei fron ef.  
Canaf, canmolaf yr Arglwydd.

Gwranddo fi, Arglwydd,  
pan lefaf, a dyro im ateb;  
canys dywedais amdant ti,  
"Ceisia ei wyneb".  
Pe fuost ti  
O Dduw'n waredwr i mi.  
Paid â throï i ffwrdd  
mewn gwylltineb.

Derbynïai Duw fi  
hyd yn oed pe bai fy rhieni  
yn cefnu arnaf. O Arglwydd,  
dysg di dy ffordd imi.  
I'r llwybr da  
arwain fi, canys fe wna  
fy ngelyn imi gamwri.

Caf weld daioni yr Arglwydd,  
mi wn hyn i sicrwydd,  
yn nhir y byw. Disglwyl dithau  
wrth Dduw a'i berffeithrwydd.  
Disgwyl, a bydd  
wrol dy galon mewn ffydd.  
A disgwyl di wrth yr Arglwydd.

Salm 29 74.74.D Gwalchmai  
NONP Volume 1.CD 4. Track 8. 3 verses

Molwch, dduwiau, yn ddidaw  
enw'r Arglwydd.  
Plygwch iddo ef pan ddaw  
mewn sancteiddrwydd.  
Mae ei lais uwch cennlif gref  
yn taranu.  
Duw'r gogoniant ydyw ef  
sy'n llefaru.

Mawr a nerthol lef yw hon:  
dryllia'r cedrwydd.  
Dryllio cedrwydd Lebanon  
y mae'r Arglwydd.  
Gwna i fynydd Lebanon  
ac un Sirion  
neidio a llamu ger ei fron  
fel dau eidion.

Fflachiai'i lais fel mellt ar daith,  
ac mae'n peri  
i anialwch Cades faith  
grynu ac ofni.  
Mae'r ewigod cyn eu pryd  
oll yn llydnu.  
Yn ei deml mae'r bobl i gyd  
yn mawrygu.

Eistedd y mae'r Arglwydd Dduw  
uwch y dyfroedd  
ar ei orsedd. Brenin yw  
yn ei oesoedd.  
Rhodded ef i'w bobl byth mwy  
nerth a mawredd!  
A bendithied hefyd hwy  
â thangnefedd!

Salm 43 65. 65 Caswall  
NONP Volume 2. CD 3. Track 7. 8 verses

Cyfiawnha fi, Arglwydd,  
f'achos dadlau di;  
rhag rhai drwg, annheyrngar  
tyrd i'm gwared i.

Ti yw fy amddiffyn.

Pam fy ngwrthod i?  
Pam fy rhoi dan orthrwm?  
Pam tristáu fy nghri?

Anfon dy wirionedd  
a'th oleuni i mi.  
Dygant hwy fi i fynydd  
dy lân drigfan di.

Yna dof at d'allor.  
Fy llawenydd yw  
dy foliannu â'r Delyn,  
ti, O Dduw, fy Nuw.

Na thristâ, fy enaid,  
ac na thyrfâ'n awr!  
Molaf fy Nuw eto,  
fy ngwaredydd mawr.

Salm 51 to 'Love Divine'

Bydd drugarog wrthyf, Arglwydd,  
yn ôl dy ffyddlondeb drud;  
golch fi'n lân o'm holl euogrwydd,  
a glanha fi o'm beiau i gyd.

Gwn fy mod i wedi pechu,  
Arglwydd, yn dy erbyn di.  
Cyfiawn wyt yn fy nedfrydu,  
cywir yn fy marnu i.

Fe'm cenhedlwyd mewn drygioni,  
ganwyd fi i ddrygau'r byd;  
ond gwirionedd a ddymuni  
oddi mewn i mi o hyd.  
Felly, dysg i mi ddoethineb;  
pura ag isop fi yn lân;  
golch fi nes bod imi burdeb  
gwynnach nag yw'r eira mân.

Llanw fi, a ddrylliaist gynnau,  
â gorfoledd llon yn awr.  
Cuddia d'wyneb rhag fy meiau,  
a dileu 'mhechodau mawr.

Crea ynof galon lanwaith,  
ysbryd cadarn rho i mi;  
a phaid byth â'm bwrw ymaith,

na nacáu im d'ysbryd di.

Rho im eto orfoleddu  
yn d'achubiaeth; rho i mi  
ysbryd ufudd, a chaf ddysgu  
i droseddwy'r dy ffyrdd di.

Os gwaredi fi rhag angau,  
traethaf dy gyfiawnder glân.  
Arglwydd, agor fy ngwefusau,  
a moliannaf di ar gân.

Salm 84. NONP 1. CD 2. Tr 7. 5 verses

Dduw y Llwoedd, dy breswylfod,  
O mor brydferth yw!  
Rwy'n hiraethu hyd at ddarfod  
am gynteddau Duw.  
Y mae'r cwbl ohonof fi  
yn gweiddi am yr Arglwydd byw.

Adar to, a'r wennol dirion  
a gânt yno nyth;  
wrth d'allorau magant gywion.  
Gwyn eu byd am byth  
bawb sy'n trigo yn dy dŷ,  
yn canu mawl i ti'n ddi-lyth.

Gwyn eu byd y pererinion;  
cedwi hwy rhag braw.  
Fe gânt ddyffryn Baca'n ffynnon  
dan y cynnar law.  
Ânt o nerth i nerth, nes dod  
i wyddfod Duw yn Seion draw.

Arglwydd Dduw y Llwoedd, gwranddo  
ar fy ngweddi i.  
Edrych ar ein tarian; dyro  
Ffافر i'n brenin ni.  
Gwell na blwyddyn gartef fydd  
un dydd yn dy gynteddau di.

Gwell yw sefyll y tu allan  
yno na chael byw  
yn nhai'r drwg; cans haul a tharian  
yw yr Arglwydd Dduw.  
Gwyn ei fyd y sawl y bo  
ei hyder ynddo; dedwydd yw.

Salm 119.9-16

Tôn: Penlan 76. 76. D

Salmau Cân Newydd 2008

**Pa fodd y ceidw'r ifainc  
eu llwybrau'n lân fel ôd?  
Trwy gadw'r d'air, O Arglwydd,  
fe'th geisiais â'm holl fod.  
Na ad i mi byth wyro  
oddi wrth d'orchmynion di.  
Dy eiriau a drysorais  
o fewn fy nghalon i.**

**Rwyt fendigedig, Arglwydd;  
dy ddeddfau ddysg i mi.  
Bûm droeon yn ailadrodd  
holl farnau d'enau di.  
Yn dy farnedigaethau  
bûm lawen iawn fy mryd;  
roedd fy llawenydd ynddynt  
uwchlaw holl gyfoeth byd.**

**Fe fyddaf yn myfyrio  
ar dy ofynion di,  
yn cadw dy holl lwybrau  
o flaen fy llygaid i.  
Yr wyf yn ymhyfrydu  
yn neddfau pur y nef,  
ac am dy air, O Arglwydd,  
byth nid anghofiaf ef.**

These two pages sent to Mari further to  
a conversation on Thursday 23.08.2018